# Gweithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2017

# Gair am y ddogfen hon

Dan Gytundeb a Siarter newydd y BBC, rhaid i wasanaethau darlledu a rhaglenni ar alwad y BBC yn y DU[1] gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom ("y Cod") a rhaid i Ofcom sicrhau safonau cynnwys ar gyfer y BBC.

Pan fydd Ofcom yn cael cwyn neu'n penderfynu ymchwilio i weld a yw'r BBC wedi torri'r Cod, byddwn yn dilyn ein gweithdrefnau cyhoeddedig. Ar ôl ymgynghori, mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau terfynol y bydd Ofcom fel arfer yn eu dilyn ar gyfer gwasanaethau darlledu a rhaglenni ar alwad y BBC yn y DU a ariennir gan ffi'r drwydded wrth:

- ystyried ac ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â safonau cynnwys o dan y Cod;
- ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd o dan y Cod; ac
- ystyried rhoi sancsiynau am dorri'r Cod.

Bydd y gweithdrefnau hyn yn dod i rym pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar y Dyddiad Dod i Rym sy'n cael ei nodi yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017.

[1] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ar weithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC | 4 |
| **Atodiad** | | |
| 1 | Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC | 15 |
| 2 | Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC | 25 |
| 3 | Gweithdrefnau sy'n cael eu cynnig ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC | 36 |

**Adran 1**

# Cyflwyniad

1.1 Ar 15 Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Siarter Frenhinol newydd a Chytundeb Fframwaith newydd ar gyfer y BBC.[2] Y rhain fydd y sail gyfansoddiadol ar gyfer gwaith y BBC dros yr 11 mlynedd nesaf, gan warantu annibyniaeth y BBC a chan ddarparu fframwaith ar gyfer sut bydd y BBC yn cael ei lywodraethu, ei reoleiddio a’i ariannu.

1.2 Mae’r Siarter yn cyflwyno trefn reoleiddio allanol lawn ar gyfer y BBC a fydd yn cael ei gweithredu gan Ofcom. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Ofcom reoleiddio safonau cynnwys ar gyfer Gwasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU (“gwasanaethau darlledu'r BBC”) a Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU (“gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC”)[3] i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion. Bydd y gofynion i'w cael yng Nghod Darlledu Ofcom (“y Cod”).

1.3 Mae’r datganiad hwn yn nodi penderfyniadau Ofcom ar y gweithdrefnau y bydd Ofcom yn eu dilyn fel rheol mewn perthynas â gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC wrth:

- ystyried ac ymchwilio i faterion sy’n ymwneud â safonau cynnwys o dan y Cod;
- ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd o dan y Cod; ac
- ystyried rhoi sancsiynau am dorri’r Cod.

## Y cefndir a’r amcanion statudol

1.4 Mae dyletswyddau darlledu Ofcom yn cynnwys sicrhau ym mhob gwasanaeth teledu a radio bod safonau ar waith sy’n darparu digon o amddiffyniad:

- i aelodau’r cyhoedd rhag deunyddiau sy’n achosi tramgwydd neu niwed: adran 3(2)(e) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (“Deddf 2003”); ac
- i aelodau’r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a fydd wedi’u cynnwys mewn gwasanaethau o’r fath a rhag tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy’n deillio o weithgareddau a wneir at ddibenion gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

1.5 Wrth wneud yn siŵr fod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy’n rhoi’r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant.

1.6 Yn fwy penodol, mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i’w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio sy’n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau “amcanion safonau” penodol, sydd wedi cael eu nodi yn adran 319(2). Rhaid i Ofcom lunio Codau sy’n cynnwys y

[2] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[3] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau'r Cod.

1.7 Yn yr un modd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") i lunio Cod sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd mewn rhaglenni o'r fath). Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, bydd Ofcom yn defnyddio Adrannau Saith (Tegwch) ac Wyth (Preifatrwydd) y Cod.

1.8 Mae Ofcom yn rheoleiddio'r hyn a ddarperir ar wasanaethau'r BBC yn rhinwedd adran 198[4] o Ddeddf 2003 i'r graddau y mae darpariaeth i wneud hynny wedi cael ei gynnwys yn Siarter a Chytundeb y BBC, Deddf 2003 a Rhan 5 o Ddeddf 1996. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn nodi dyletswyddau'r BBC i gydymffurfio â'r Cod a phwerau Ofcom i ymchwilio i gydymffurfiad y BBC, a'i orfodi.

## Trosolwg o gynigion yr ymgynghoriad

1.9 Dan Gytundeb y BBC, bydd yn rhaid i Ofcom sefydlu a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion a fydd yn cael eu cyfeirio ato ynghylch y BBC a'u datrys, ynghyd â chynnal ymchwiliadau ar ei liwt ei hun.[5]

1.10 Mae Cytundeb y BBC yn datgan bod yn rhaid i weithdrefnau cwyno Ofcom roi gwybodaeth am sut y gall y rhai sy'n cwyno ddisgwyl cael eu trin drwy gydymffurfio â'r canlynol o leiaf:

a) rhaid i'r cyhoedd wybod am eu hawl i gwyno a sut;

b) rhaid i'r broses o gyfeirio cwyn at Ofcom fod yn syml a hygyrch;

c) rhaid i achosion a gyfeirir gael eu hystyried a'u datrys yn effeithiol;

d) rhaid i'r broses o drin achosion a gyfeirir fod yn amserol; a

e) rhaid trin cwyn mewn ffordd gymesur.

1.11 Hefyd, rhaid i'r gweithdrefnau roi arweiniad clir sy'n esbonio:

a) sut mae'r system gwyno yn gweithio;

b) y rhwymedïau a'r sancsiynau y gall Ofcom eu gosod;

c) lle bo'n berthnasol, bod dulliau eraill o gael iawn ar gael yng nghyswllt y math o faterion a godwyd gan y sawl sy'n cwyno neu rywun a fydd efallai yn cwyno; a

d) sut bydd y rheini sy'n cwyno yn cael gwybod bod y gŵyn wedi cael ei datrys a chael esboniad sy'n briodol i natur y gŵyn.

1.12 Ar 23 Ionawr 2017, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ar ei weithdrefnau arfaethedig ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer

[4] Mae'r Llywodraeth wedi cynnig diwygiadau i adran 198, ym Mil yr Economi Ddigidol sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Mae wedi cynnig, yn hytrach na chyfeirio at ddarparu gwasanaethau'r BBC, bydd adran 198(1) yn datgan mai un o swyddogaethau Ofcom yw 'rheoleiddio'r BBC'.
[5] Cymalau 57 a 58 yng Nghytundeb y BBC.

rhaglenni'r BBC. Ar yr un pryd, bu Ofcom yn ymgynghori ar nifer fach o ddiwygiadau i'w weithdrefnau presennol sy'n berthnasol i bob darlledwr a darparwr gwasanaethau rhaglenni ar alwad arall. Mae'r datganiad a oedd yn rhoi casgliad yr adolygiad hwnnw i'w weld yma: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing

1.13 Nod cynigion Ofcom ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer cwynion am safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC, a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC, oedd sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn hygyrch i gynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill. Roeddent yn debyg iawn i weithdrefnau presennol Ofcom ar gyfer darlledwyr trwyddedig eraill (sy'n berthnasol ar hyn o bryd i wasanaethau'r BBC pan mae gan Ofcom awdurdodaeth i ystyried cwyn). Cawsant eu llunio gyda'n dyletswyddau darlledu mewn golwg, ac er mwyn bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer gweithdrefnau cwyno o'r fath yn unol â Chytundeb y BBC.

## Y camau nesaf

1.14 Mae'r datganiad hwn yn cwblhau ymgynghoriad Ofcom ar weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC[6]. Mae Adran 2 y ddogfen hon yn crynhoi safbwyntiau rhanddeiliaid ar ein gweithdrefnau newydd arfaethedig, ac ymateb Ofcom iddynt.

1.15 Mae'r gweithdrefnau newydd wedi'u nodi yn Atodiadau 1, 2 a 3, a byddant yn dod i rym pan fydd Ofcom yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoleiddio'r BBC ar y Dyddiad Dod i Rym sy'n cael ei nodi yn y Siarter, sef 3 Ebrill 2017.

[6] Bydd Ofcom yn ymgynghori ar weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion am ddeunydd ar-lein y BBC pan fydd y swyddogaethau gofynnol gennym mewn deddfwriaeth. Bwriedir sicrhau'r swyddogaethau hyn fel rhan o'r Bil Economi Ddigidol, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

Adran 2

# Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ar weithdrefnau newydd ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC

2.1 Cafodd Ofcom naw ymateb i'w ymgynghoriad ar ei weithdrefnau arfaethedig ar gyfer delio â chwynion am safonau cynnwys, ymchwiliadau a sancsiynau ar gyfer rhaglenni'r BBC. Cyflwynwyd yr ymatebion gan y canlynol: y BBC; y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl; ITV ac STV ("ITV/STV"); Radio Centre; UK Lawyers for Israel ("UKLFI"); UK Music; a'r ymatebwyr unigol Andrew Todd, Peter Saunders a Neil Turner.

2.2 Mae'r cynigion y cododd y rhanddeiliaid faterion yn eu cylch wedi'u nodi isod, ynghyd â chrynodeb o'r materion hynny ac ymatebion Ofcom.

2.3 Mae'r ymatebion llawn wedi'u cyhoeddi ar wefan Ofcom[7]. Mae'r gweithdrefnau terfynol ar gael yn Atodiadau 1, 2 a 3.

## Ymatebion rhanddeiliaid i'r cynigion a phenderfyniadau terfynol Ofcom

### 'BBC yn gyntaf'

2.4 Y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng gweithdrefnau presennol Ofcom sy'n berthnasol i ddarlledwyr eraill a'r gweithdrefnau arfaethedig ar gyfer y BBC yw'r dull 'BBC yn gyntaf' ar gyfer cwynion am safonau cynnwys, heblaw am gwynion Tegwch a Phreifatrwydd. Dan Gytundeb y BBC, rhaid i gŵyn (ac eithrio cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried yn unol â statud) gael ei datrys fel arfer gan y BBC yn y lle cyntaf.[8] Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon ag ymateb terfynol y BBC, neu os yw'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn, neu os yw'r BBC wedi methu ymateb o fewn yr amserlen yn ei weithdrefnau ei hun, bydd y sawl sy'n cwyno'n gallu cyfeirio'r gŵyn at Ofcom[9].

2.5 Gofynnodd ITV/STV i Ofcom ddefnyddio'r un dull ar gyfer pob darlledwr, er mwyn sicrhau bod yr holl gwynion am safonau'n cael sylw dan system 'Darlledwr yn gyntaf'. Roedd ITV/STV o'r farn bod y gweithdrefnau presennol yn "rhoi'r argraff" eu bod yn annog y rheini sy'n cwyno i sôn am y gŵyn wrth y darlledwr yn gyntaf, ond awgrymodd bod y "drefn newydd" o reoleiddio'r BBC yn gyfle i droi at "ddull teg". Wrth ymateb i ymgynghoriad ar wahân Ofcom ar wneud gweithdrefnau'n berthnasol i

[7] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/bbc-content-standards-investigations-and-sanctions
[8] Cymalau 56(4)(a) a (5) y Cytundeb.
[9] Yn unol â Chymal 57(1) y Cytundeb.

bob darlledwr arall[10], roedd BT ac A+E Networks hefyd wedi awgrymu y gellid ymestyn y model 'BBC yn gyntaf' i gynnwys darlledwyr eraill sy'n gallu dangos bod ganddynt systemau effeithiol ar waith ar gyfer delio â chwynion a chydymffurfio.

2.6 Mae gweithdrefnau Ofcom ar gyfer darlledwyr ar wahân i'r BBC yn dweud yn glir, "er mwyn datrys materion yn brydlon, mae Ofcom o'r farn y dylai'r rheini sy'n cwyno ddilyn gweithdrefn cwyno'r darlledwr ei hun cyn cwyno wrth Ofcom"[11]. Fodd bynnag, mae Ofcom hefyd yn derbyn cwynion a gyflwynir yn uniongyrchol i ni. Mae Cytundeb newydd y BBC yn mynnu bod y dull 'BBC yn gyntaf' yn cael ei ddefnyddio, ac mae'n rhaid i'r BBC ymgynghori ar ei weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion sy'n gorfod bodloni meini prawf penodol.[12] Rydym yn cydnabod y gallai darlledwyr eraill fodloni set debyg o feini prawf. Fodd bynnag, mae fframwaith rheoleiddio a graddfa'r BBC yn wahanol. Bydd Ofcom yn rhoi'r dull 'BBC yn gyntaf' ar waith ar gyfer y BBC yn unig ym mis Ebrill 2017. Byddwn yn adolygu'r safbwynt hwn dros amser.

2.7 Gofynnodd Radio Centre am sicrwydd y bydd Ofcom, o dan y dull 'BBC yn gyntaf', yn gallu barnu a yw'r BBC wedi torri amodau'r Cod sawl gwaith "mewn modd a fyddai'n golygu y gallai'r darlledwr gael sancsiwn".

2.8 I sicrhau tryloywder ac atebolrwydd o dan y dull 'BBC yn gyntaf', mae'r Cytundeb yn gofyn i'r BBC ddarparu adroddiadau i Ofcom am y cwynion y mae wedi'u cael ar ffurf ac ar adegau y byddwn ni'n penderfynu arnyn nhw.[13] Bydd hyn yn galluogi Ofcom i ddefnyddio'i allu i gamu i mewn ar fater yn gynnar, os byddwn o'r farn bod angen gwneud hynny, ac yn sicrhau y byddwn ni'n cael gwybod beth yw canlyniadau ymchwiliadau'r BBC i ddatblygu ac asesu ei gofnod cydymffurfiaeth.

**Cyfnodau perthnasol**

2.9 Mae Cytundeb y BBC yn mynnu bod gweithdrefnau Ofcom yn ei alluogi i ystyried cwynion, ymysg amgylchiadau eraill, "os yw'r BBC wedi methu datrys cwyn o fewn yr amserlen a nodir yng...[ngweithdrefnau'r BBC ei hun]". Cyfeiriwyd at y cyfnod hwn yn y gweithdrefnau arfaethedig fel "dyddiad cau'r BBC" a bydd yn cael ei fewnosod pan fydd y BBC wedi sefydlu ei weithdrefnau. Dan y trefniadau pontio yn y Siarter, rhaid i'r BBC sefydlu a chyhoeddi fframwaith interim ar gyfer delio â chwynion erbyn 3 Ebrill 2017, ar ôl ymgynghori ag Ofcom. Rhaid i'r BBC sefydlu a chyhoeddi fframwaith terfynol ar gyfer delio â chwynion, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd hefyd, erbyn 3 Hydref 2017.

2.10 Yn ei ymateb, roedd y BBC yn dadlau y byddai'r sawl sy'n cwyno'n gallu cyfeirio'r gŵyn at Ofcom petai'r BBC yn methu ymateb "o fewn yr amserlen a nodir yng ngweithdrefnau [y BBC]", ac yn teimlo bod y Cytundeb yn rhoi'r argraff y bydd "Ofcom yn ystyried bod pob cwyn yn addas i'w hystyried...ar ôl cyrraedd yr amseroedd targed yng ngweithdrefnau cwyno'r BBC". Dywedodd y BBC bod ei amserlenni ei hun yn rhai "dangosol, yn hytrach nag yn berthnasol i bob un achos" ac awgrymodd eiriad llai caeth i Ofcom ei fabwysiadu.

2.11 Mae Ofcom yn derbyn y bydd rhai ymchwiliadau yn para am fwy o amser na'r amserlen, ac na fyddai dechrau ymchwiliad o'r newydd o fudd i Ofcom, y BBC na'r sawl sy'n cwyno. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod y rheini sy'n cwyno yn gallu cyfeirio'u

[10] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing
[11] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures
[12] Cymalau 56(3) a (4) y Cytundeb.
[13] Cymal 56(7) y Cytundeb.

cwyn at Ofcom os nad yw wedi cael ei datrys, neu'i dirwyn i ben, o fewn cyfnod penodol, yn elfen bwysig o'r dull 'BBC yn gyntaf'.

2.12 Soniodd UKLFI ac unigolyn, Neil Turner, hefyd am brydlondeb ym mhroses y BBC ar gyfer delio â chwynion. Roeddent yn galw am eglurder ar amserlenni cwyno'r BBC, er mwyn i'r rheini sy'n cwyno wybod am faint y bydd angen iddynt aros am ymateb i'w cwyn, a phryd y byddant yn gallu cyfeirio cwyn at Ofcom.

2.13 Yn ei ymateb i Weithdrefnau Cwynion Interim drafft y BBC[14], dywedodd Ofcom y dylai'r BBC ddweud yn glir yn ei Weithdrefnau Interim y gall y sawl sy'n cwyno gyfeirio'i gŵyn at Ofcom os nad yw o'r farn bod y BBC wedi delio â'r gwyn yn brydlon, a gosod cyfnodau pendant ar gyfer pob cam o'r broses er mwyn dweud pryd gall y sawl sy'n cwyno gyfeirio'i gŵyn at Ofcom. Byddwn yn diweddaru ein gweithdrefnau er mwyn adlewyrchu'r amserlenni a nodwyd yn Fframwaith Cwynion Interim y BBC ei hun, pan fydd yn cael ei gyhoeddi cyn 3 Ebrill.

2.14 Gofynnodd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl am ddiffiniad o'r term "prydlon" o ran ystyriaeth Ofcom o gwynion, er mwyn i'r rheini sy'n cwyno wybod am faint y bydd angen iddynt aros am ymateb. Nod Ofcom yw cwblhau ei asesiad cychwynnol o gwynion am safonau cynnwys o fewn 15 diwrnod gwaith, ac unrhyw achosion y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt o fewn 50 diwrnod gwaith (gweler paragraffau A1.33 ac A1.36 yn Atodiad 1)[15]. Ni fyddwn yn ymateb yn unigol iddynt fel arfer, ond byddwn yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n cwyno am ganlyniadau cwynion yn ein Bwletin Darlledu ac Ar Alwad, a gyhoeddir bob pythefnos (gweler paragraffau 2.41–2.44 am ragor o wybodaeth).

2.15 Cynigiodd Ofcom ei bod yn rhaid i'r BBC gadw recordiadau o raglenni radio am o leiaf 42 diwrnod ar ôl darlledu; recordiadau o raglenni teledu am o leiaf 90 diwrnod ar ôl darlledu; a chopïau o raglenni sydd wedi bod ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC am o leiaf 42 diwrnod ar ôl iddynt beidio â bod ar gael i'w gwylio mwyach. Cynigiodd hefyd, os bydd cwyn yn cael ei gwneud bydd rhaid i'r BBC gadw'r recordiadau neu'r copïau perthnasol, ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig, am yr un cyfnodau hynny, ond gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n rhesymol i'r BBC ddisgwyl i'r sawl sy'n cwyno gael ei ymateb terfynol i'r gŵyn. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cynigion hyn, ac mae'r cyfnodau cadw arfaethedig wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau terfynol.

### "Amgylchiadau eithriadol"

2.16 Dan Gytundeb y BBC, mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chwyn nad yw wedi cael ei datrys gan y BBC a'i datrys ei hun[16]. Roedd y gweithdrefnau arfaethedig yn datgan y gallai'r "amgylchiadau eithriadol" gynnwys (ond nid dim ond y rhain) Ofcom yn pryderu ynghylch anogaeth i droseddu, niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed, niwed ariannol neu gorfforol, cynnwys pobl ifanc dan 18 oed mewn rhaglenni, materion problematig o natur systematig yn y diwydiant darlledu a all effeithio ar y BBC, neu gwynion chwythwyr chwiban sy'n ymwneud â darlledu. Caiff Ofcom hefyd lansio ymchwiliad os nad oes cwyn.

[14] Mae ymateb Ofcom i'w weld yma: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/bbc-content-standards-investigations-and-sanctions
[15] I weld yr amserlenni ar gyfer cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd, gweler paragraffau A2.24 ac A5.22 yn Atodiad 2.
[16] Cymal 57(2) y Cytundeb.

2.17 Yn ei ymateb, awgrymodd y BBC ddiwygiadau drafft i'r rhestr o enghreifftiau o amgylchiadau lle gall Ofcom ystyried camu i mewn yn gynnar. O ran "niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed", roedd o'r farn y dylid ychwanegu'r ansoddair "parhaus". Fel arall gellid tybio ei fod yn golygu y byddai Ofcom yn defnyddio'i bŵer i gamu i mewn ym mhob achos lle'r oedd honiad o niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed. Roedd hefyd o'r farn y dylid ychwanegu'r gair "difrifol" ar ôl "niwed ariannol neu gorfforol" (fel yr oedd yn ymddangos ym mharagraff 1.24 yr ymgynghoriad). Roedd UKLFI o'r farn bod cynnwys camarweiniol neu unochrog sy'n dal ar gael yn enghraifft ychwanegol, ac y gallai'r pwnc hyrwyddo hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth.

2.18 Gall Ofcom gamu i mewn yn gynnar mewn unrhyw achos os bydd o'r farn bod yr amgylchiadau'n eithriadol, ac nid yw'r rhestr o enghreifftiau o'r mathau o ddeunydd a allai arwain at gamu i mewn yn gynnar yn gyflawn. Yn yr un modd, ni fydd Ofcom bob amser o'r farn bod angen defnyddio'i hawliau camu i mewn pan fydd deunydd o'r natur hon yn cael ei dwyn i'n sylw; byddwn yn asesu amgylchiadau unigol pob achos. Felly, nid ydym o'r farn bod angen diwygio'r rhestr o enghreifftiau.

2.19 Dywedodd y BBC os mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae Ofcom yn bwriadu lansio ymchwiliad os nad oes cwyn wedi'i chyflwyno, yna byddai'n ddefnyddiol petai'n egluro hynny. Mae cymal 58 y Cytundeb yn galluogi Ofcom i gynnal ymchwiliadau o'r fath fel mae'n credu sy'n briodol er mwyn gweld a oes cydymffurfiaeth â gofyniad[17] penodol. Mae Ofcom yn bwriadu lansio ymchwiliad pan nad oes cwyn wedi'i chyflwyno pan fydd yn credu bod hynny'n briodol, yn unol â'r Cytundeb. Felly, nid ydym wedi ychwanegu "mewn amgylchiadau eithriadol" at y rhan hon o weithdrefnau'r safonau.

### Tegwch a phreifatrwydd

2.20 Mae gweithdrefnau arfaethedig Ofcom ar gyfer ystyried cwynion yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd yng nghyswllt rhaglenni'r BBC, fel ei weithdrefnau presennol ar gyfer pob darlledwr arall sydd, tan nawr, wedi bod yn berthnasol i'r BBC, yn egluro y gall Ofcom – mewn amgylchiadau eithriadol – ystyried materion tegwch neu breifatrwydd os na fydd cwyn wedi'i chyflwyno gan y "sawl yr effeithir arno". Roedd y BBC ac ITV/STV yn dadlau nad oes gan Ofcom y pŵer statudol i wneud hynny. Roedd Channel 4, wrth ymateb i ymgynghoriad ar wahân gan Ofcom ar y gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob darlledwr arall, hefyd yn dadlau hynny.[18]

2.21 Fel arfer, mae angen i Ofcom gael cwyn gan y "sawl yr effeithir arno" cyn ymchwilio i faterion tegwch a phreifatrwydd. Serch hynny, pan fydd Ofcom yn credu bod hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol (dan adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003) i sicrhau y rhoddir safonau ar waith sy'n rhoi amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen, gall Ofcom ystyried materion tegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan "y sawl yr effeithir arno". Dyma'r ddarpariaeth yng ngweithdrefnau presennol Ofcom, ac fe wnaethom gynnig ei bod yn aros yr un fath yn ein gweithdrefnau ar gyfer y BBC, er ein bod yn nodi bod cwmpas eang i gymal 58 y Cytundeb. Prin iawn yw'r ymchwiliadau tegwch a phreifatrwydd a lansiwyd gan Ofcom, o ystyried natur eithriadol yr amgylchiadau sydd eu hangen er mwyn sbarduno ymchwiliad o'r fath. Hyd yma, dim ond chwe gwaith mae Ofcom wedi

[17] Mae'r gofynion penodol wedi'u nodi yng nghymal 59 y Cytundeb.
[18] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing

lansio ymchwiliad tegwch a phreifatrwydd pan nad oedd cwyn wedi'i chyflwyno gan y "sawl yr effeithir arno". Felly, byddwn yn cadw'r ddarpariaeth hon.

2.22 Roedd y cynnig y gall Ofcom roi cyfarwyddyd i'r BBC ddarlledu crynodeb o Ddyfarniad os bydd cwyn yn cael ei chadarnhau neu ei chadarnhau yn rhannol yn ddiangen ym marn ITV/STV, ac yn mynd yn groes i weithdrefnau sancsiynau Ofcom. Roedd hefyd yn teimlo nad oedd "buddiannau cyfreithlon rhywun sy'n cwyno yn cael eu niweidio'n ddifrifol" yn ddigon eglur heb esboniad pellach. Mae'r ddarpariaeth, sydd hefyd yng ngweithdrefnau Ofcom sy'n berthnasol i bob darlledwr arall, yn adlewyrchu adran 119 o Ddeddf Darlledu 1996, ac mae'n berthnasol hefyd i bwerau gorfodi Ofcom o dan erthygl 49 Siarter y BBC. Bydd unrhyw benderfyniad gan Ofcom i gyhoeddi cyfarwyddyd o'r fath yn adlewyrchu ein dyletswyddau i fod yn gymesur ac yn gyson ac i dargedu camau gweithredu dim ond at yr achosion sy'n galw am hynny yn ein barn ni. Hefyd, nid yw hynny'n golygu na chaiff Ofcom ofyn am sylwadau darlledwr cyn cyhoeddi cyfarwyddyd dan y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd pan rydym yn credu y byddai gwneud hynny'n briodol i sicrhau tegwch.

**Hygyrchedd y system gwyno**

2.23 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn annog Ofcom i wneud yn siŵr bod ei weithdrefnau cwyno yn hygyrch i bawb, ac i sicrhau bod safbwyntiau pobl hŷn a phobl anabl yn cael eu clywed. Anogwyd Ofcom i wneud yn siŵr y gwneir darpariaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau mynediad sydd angen ffonau testun, gwasanaethau testun y genhedlaeth nesaf, cyfnewid fideo, e-bost a phost. Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl yn croesawu'r ffaith bod cyfeiriad e-bost pwrpasol eisoes ar gael i ddefnyddwyr â nam ar y golwg allu gwneud cwyn am wasanaethau disgrifiad sain, ond roeddent yn argymell ehangu'r defnydd o e-bost er mwyn iddo fod ar gael i ddefnyddwyr eraill.

2.24 Rydym yn cytuno ei bod yn hanfodol bod ein gweithdrefnau cwyno yn hygyrch i bawb, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau mynediad. Er bod y rhai sydd am wneud cwyn yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ffurflen ar y we i wneud hynny, mae Ofcom yn darparu rhif ffôn a chyfeiriad post hefyd, gan gynnwys rhif ffôn testun. Mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gael ar wefan Ofcom i ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain i gysylltu ag Ofcom, ac rydym wedi sôn am hynny yn y gweithdrefnau terfynol. Mae Ofcom hefyd yn derbyn cwynion am wasanaethau disgrifiad sain drwy gyfeiriad e-bost pwrpasol.

2.25 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu a'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl Hŷn a Phobl Anabl hefyd yn pwysleisio ei bod yn bwysig dweud yn glir pwy sy'n gyfrifol am reoleiddio rhaglenni, ac at bwy y dylid cyfeirio cwynion. Roeddent am weld rhwymedigaeth ar y BBC i sicrhau ei fod yn cyfeirio defnyddwyr yn briodol at y broses gwyno, ac yn annog Ofcom i wneud yn siŵr ei fod yn gallu ac yn barod i roi arweiniad i ddefnyddwyr a allai gysylltu drwy gamgymeriad. Dywedodd UKLFI y dylid diwygio ffurflenni cwyno Ofcom a'r cyfarwyddiadau cysylltiedig ar gyfer cyfeirio cwynion y BBC, ac roedd o'r farn y dylem ymgynghori arnynt.

2.26 Bydd Ofcom yn diweddaru'r wybodaeth am y BBC ar ei wefan er mwyn dweud yn glir sut byddwn yn delio â chwynion y BBC, proses y 'BBC yn gyntaf' ac at ble y dylid cyfeirio cwynion. Mae Ofcom wedi llunio ffurflenni cwyno newydd yn benodol ar gyfer cwynion y BBC, a byddant ar gael ar wefan Ofcom o 3 Ebrill 2017 ymlaen. Bydd yr adrannau perthnasol ar y wefan a'r ffurflenni cwyno yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Bydd Canolfan Gyswllt Ofcom yn cael gwybod i ble y dylai gyfeirio pobl sy'n cwyno a fydd yn cysylltu ag Ofcom mewn camgymeriad.

Dan Gytundeb y BBC, mae rhwymedigaethau penodol ar y BBC i sicrhau bod ei weithdrefnau cwyno yn syml ac yn hygyrch, gyda chanllawiau clir ar sut mae'r system gwyno (gan gyfeirio at Ofcom) yn gweithio.[19]

**Datgelu manylion y sawl sy'n cwyno**

2.27 Yn ei weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i dorri amodau safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC, cynigiodd Ofcom y dylai enw a manylion cyswllt y sawl sy'n cwyno – oni bai y bydd yn gwneud cais penodol iddynt aros yn gyfrinachol wrth wneud cwyn – yn cael eu datgelu i'r BBC, ond y byddai'n ystyried unrhyw gais gan y sawl sy'n cwyno i aros yn ddienw. Roedd ITV/STV yn dadlau nad oes sail resymegol – heblaw yn achos chwythwyr chwiban – i'r sawl sy'n cwyno aros yn ddienw, ac y gallai fod yn annheg mewn rhai amgylchiadau i beidio â chael gwybod pwy sydd wedi cwyno. Gwnaeth yr un pwynt wrth ymateb i ymgynghoriad ar wahân Ofcom ar y gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob darlledwr arall.

2.28 Wrth roi gweithdrefnau'r safonau ar waith, bydd Ofcom yn ystyried y cwestiwn gwrthrychol a yw'r BBC (fel unrhyw ddarlledwr arall) wedi torri gofyniad sy'n ymwneud â safonau. Mae Ofcom yn credu nad yw gweithdrefn deg ac effeithiol, yn y rhan fwyaf o achosion, yn golygu bod angen datgelu i'r darlledwr pwy yw'r sawl sy'n cwyno. O ystyried y dull 'BBC yn gyntaf', rydym o'r farn y byddai'n arfer safonol datgelu i'r BBC pwy sydd wedi cwyno wrth ymchwilio i gŵyn. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd Ofcom yn cael sylwadau ynghylch aros yn ddienw mewn rhai amgylchiadau, a byddwn yn ystyried y rheini fesul achos.

**Ystyriaeth ac asesiadau cychwynnol Ofcom o gwynion**

2.29 Mewn achosion lle byddai cwyn ynglŷn â safonau'r BBC yn cael ei chyfeirio at Ofcom yn unol â'n gweithdrefnau ni, fe wnaethom gynnig yn y lle cyntaf y byddem yn ystyried a oedd y gŵyn, ar yr olwg gyntaf, yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod, gan gyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Y bwriad oedd gwneud hynny gan gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu raddfa'r mater dan sylw, gan gynnwys, er enghraifft, a yw'n ymwneud â niwed parhaus, niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed a/neu niwed ariannol; ac a yw Ofcom yn credu bod y BBC wedi gwneud penderfyniad priodol ynghylch y mater. Yn ogystal, cynigiwyd y byddem yn ystyried a fyddai sancsiwn gan Ofcom yn erbyn y BBC yn briodol os byddem o'r farn bod y BBC wedi gwneud penderfyniad priodol.

2.30 Mae UKLFI o'r farn y dylai Ofcom ymchwilio i bob cwyn sy'n codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod nad yw'r BBC wedi eu datrys. Dywedodd y dylai unrhyw asesiad o "ddifrifoldeb" ystyried a yw'r cynnwys yn ymwneud â mater y byddai ei ddarlledu yn gallu hyrwyddo hiliaeth, gan gynnwys gwrth-Semitiaeth, ac effaith gronnus diffyg cywirdeb a didueddrwydd mewn gwahanol raglenni am faterion tebyg.

2.31 Byddwn yn asesu'n ofalus bob cwyn sy'n dod i law yn erbyn rheolau'r Cod Darlledu. Bydd cwynion sydd, ym marn Ofcom, yn codi materion a allai fod yn sylweddol yn erbyn y Cod ac sy'n cyfiawnhau ymchwiliad yn mynd ymlaen i gael eu hymchwilio. Nid yw'r rhestr o enghreifftiau a roddir o'r mathau o gynnwys a allai fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau ymchwiliad yn gyflawn. Mae Ofcom yn trin achosion posibl o dor-amod ar sail cymell, casineb ar lafar neu driniaeth ddifrïol neu ymosodol yn ddifrifol iawn. Gan ddibynnu ar ffeithiau pob achos, cynhelir ymchwiliad yn ddiymdroi pryd

[19] Cymal 56(4) y Cytundeb.

bynnag y byddwn yn teimlo bod mater a allai fod yn sylweddol yn ymwneud â'r Cod wedi cael ei godi.

2.32 Awgrymodd ITV/STV "na all y BBC ystyried cwynion yn erbyn ei Safonau Golygyddol ei hun yn unig, mae'n rhaid iddo ystyried cwynion yn erbyn y Cod, fel pob darlledwr arall".

2.33 Mae Atodlen 3, paragraff 2 o Gytundeb y BBC yn mynnu bod y BBC yn "sefydlu ac yn cyhoeddi canllawiau sy'n ceisio sicrhau safonau priodol yng nghynnwys Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, ac yn cadw atynt a'u hadolygu'n gyson". Mae'n rhaid i'r canllawiau hyn ymgorffori darpariaethau Cod Darlledu Ofcom. Yn ôl Cymal 56(2) y Cytundeb, "bydd y BBC yn ystyried cwyn… yn erbyn a yw'r BBC wedi cadw at y canllawiau golygyddol o dan baragraff 2 o Atodlen 3, tra bydd Ofcom yn ystyried y gŵyn yn erbyn… [y Cod]."

2.34 Holodd unigolyn, Peter Saunders, sut bydd Ofcom yn cael ac yn ystyried cwynion "rhagfarn drwy hepgor" am y BBC. Bydd gofyn bod y BBC yn cydymffurfio ag Adran Pump o'r Cod, sy'n nodi'r rheolau ynghylch cywirdeb priodol a didueddrwydd dyladwy. Ystyrir sut mae'r rheolau hynny'n berthnasol i'r BBC mewn datganiad a gyhoeddwyd gan Ofcom ar 9 Mawrth 2017.[20]

Yn ein gweithdrefnau arfaethedig, nodwyd y byddai achosion o bosibl lle nad yw Ofcom yn teimlo bod angen gofyn am sylwadau neu wybodaeth gan y BBC cyn llunio Safbwynt Rhagarweiniol. Roedd ITV/STV yn dadlau nad oedd yn gallu gweld sut gallai fod yn rhesymol o gwbl i Ofcom lunio Safbwynt Rhagarweiniol heb gael sylwadau gan y darlledwr yn gyntaf, oni bai fod y darlledwr wedi derbyn bod tor-amod wedi digwydd[21]1.1 .

1.2 Nid ydym yn cytuno. Rydym yn teimlo ei bod yn bosibl y bydd achosion lle mae ffeithiau'r achos yn glir, neu lle mae'r BBC wedi cyfaddef i dor-amod, ac nad oes angen gofyn am sylwadau cyn llunio Safbwynt Rhagarweiniol yn sgil hynny. Bydd y BBC bob amser yn cael cyfle i roi sylwadau am Safbwynt Rhagarweiniol cyn i Ofcom ddod i Benderfyniad Terfynol, ac rydym ni o'r farn bod hynny'n ddigonol mewn achosion o'r fath i sicrhau proses deg.

**Rhan y Bwrdd Cynnwys a'r Pwyllgor Gwaith**

1.3 Roedd UKLFI yn annog Ofcom i osgoi defnyddio staff gweithredol ac aelodau o'r Bwrdd Cynnwys a oedd yn arfer gweithio i'r BBC i ystyried cwynion am y BBC oherwydd pryderon ynglŷn â'u gwrthrychedd, yn enwedig wrth ystyried cwynion am sylw'r BBC ar Israel.

1.4 Mae gofyniad Ofcom am broses benderfynu ddiduedd a gwrthrychol yn berthnasol i holl aelodau gweithredol ac anweithredol Pwyllgorau a Byrddau Ofcom. Mae'n rhaid i aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom gadw at God Ymddygiad sydd wedi cael ei gyhoeddi, ac mae'n ofynnol eu bod yn cynnal y safonau priodoldeb uchaf, ac mae hynny'n golygu bod yn onest, yn ddiduedd ac yn wrthrychol. Mae hyn yn berthnasol i

[20] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0030/98148/Due-impartiality-and-elections-statement.pdf

[21] Mae'r mater hwn yn cael ei drafod yn fanylach ym mharagraffau 2.26 a 2.29 o Ddatganiad Ofcom ar Weithdrefnau ar gyfer delio ag ymchwiliadau a sancsiynau yng nghyswllt safonau cynnwys a thrwyddedu darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad a darlledwyr eraill: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing

bob elfen o’u rôl, gan gynnwys pan roddir cyngor ar benderfyniadau'n ymwneud a safonau golygyddol.

**Sylwadau i Ofcom**

1.5 Cyflwynodd unigolyn, Andrew Todd, ac UKLFI sawl dadl ynglŷn â hawliau’r rhai sy'n cwyno yng ngweithdrefnau Ofcom. Dywedwyd bod gweithdrefnau arfaethedig Ofcom yn “amlwg yn annheg” i'r rheini sy’n cwyno gan nad oes modd iddyn nhw (yn wahanol i'r BBC) gael golwg ar Safbwyntiau Rhagarweiniol Ofcom na rhoi sylwadau arnynt, na gweld copi o’r Penderfyniad Terfynol ymlaen llaw.

1.6 Mae Ofcom yn nodi’r safbwyntiau hyn. Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a yw'r BBC yn peidio â chydymffurfio â gofyniad mewn achos penodol. Mae Ofcom yn asesu, ac yn ymchwilio lle bo angen, i gŵyn am safonau ar sail y materion a godwyd. Rydym yn cydnabod pob cwyn sy’n dod i law, ond nid ydym fel rheol yn cysylltu ymhellach ag unigolion sydd wedi cwyno. Mae gan y rheini sy'n cwyno gyfle i roi sylwadau pan maent yn gwneud cwyn. Rydym ni o'r farn bod hyn yn briodol yn yr amgylchiadau hyn, ac nad yw’n golygu bod y rheini sy'n cwyno yn cael eu trin yn annheg. Mewn ymchwiliadau i safonau, ein gwaith ni yw asesu a yw'r BBC wedi torri’r Cod, nid dyfarnu haeddiant cwyn unigol. Felly unwaith y byddwn wedi penderfynu ymchwilio, byddwn yn rhoi cyfle i’r BBC (ac unrhyw drydydd parti perthnasol y gallai canlyniad yr ymchwiliad effeithio arno) wneud sylwadau i ni, ond ni fydd y rhai sy'n cwyno yn cael y cyfle hwn fel arfer.

2.35 Mae gennym weithdrefn wahanol ar gyfer delio â chwynion am faterion yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd ac, fel yr eglurwyd yn y Gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd a nodir yn Atodiad 2, mae’r rheini sy'n cwyno hefyd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom cyn i Ofcom gyflwyno ei ddyfarniad terfynol. Y rheswm am hyn yw am fod sefyllfa’r sawl sy'n cwyno mewn cwyn yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd yn wahanol i sefyllfa’r sawl sy’n cwyno mewn achos yn ymwneud â safonau. Er mwyn i Ofcom ystyried cwyn sy'n ymwneud â thegwch neu breifatrwydd, mae'n rhaid i’r sawl sy'n cwyno allu dangos ei fod yn “sawl yr effeithir arno”[22] ac y bydd ganddo, o'r herwydd, fudd uniongyrchol yng nghanlyniad y gŵyn.

**Cyhoeddi Penderfyniadau Terfynol Ofcom**

2.36 Cynigodd Ofcom hysbysu’r rheini sydd wedi cwyno am ganlyniad cwynion drwy gyhoeddi ei benderfyniadau ym Mwletin Darlledu ac Ar Alwad Ofcom ar ei wefan. Dyma beth rydym yn ei wneud wrth ddelio â chwynion am ddarlledwyr eraill a gwasanaethau rhaglenni ar alwad hefyd. Cynigodd Ofcom ddarparu copi dan embargo o’r penderfyniad, er gwybodaeth yn unig, i’r BBC un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi (ac, mewn ymgynghoriad ar wahân, addasu ein gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob darlledwr arall i wneud yr un ddarpariaeth).

2.37 Roedd UKLFI yn dadlau nad yw cyhoeddi’r penderfyniadau i beidio ag ymchwilio yn y Bwletin Darlledu ac Ar Alwad yn ddigonol, ac y dylai Ofcom gysylltu ag unigolion sydd wedi cwyno dros e-bost gan ddweud pam nad yw wedi bwrw ymlaen â’r gŵyn. Dywedodd unigolyn, Neil Turner, y dylai Ofcom gyhoeddi pa gamau a gymerwyd i unioni’r gŵyn, gan bwy, a phryd y gwnaed hynny. Dywedodd ITV/STV y dylai Ofcom

[22] Fel yr eglurwyd yn y gweithdrefnau tegwch a phreifatrwydd yn Atodiad 2, mae’r “sawl yr effeithir arno” yn golygu, yng nghyswllt cwyn sy'n ymwneud â thegwch, rhywun a oedd yn rhan o raglen y cwynwyd yn ei chylch yng nghyswllt triniaeth annheg, neu rywun a oedd â budd uniongyrchol yn hynny. Mewn perthynas â chwyn am breifatrwydd, mae’n golygu rhywun y tarfwyd ar ei breifatrwydd.

gyhoeddi penderfyniadau llawn am gwynion sydd wedi bod yn destun sylwadau llawn gan y BBC, p’un a oedd achos o dor-amod ai peidio.

2.38 Roedd ITV/STV yn dadlau na fyddai rhoi un diwrnod gwaith o rybudd o benderfyniad (a allai gynnwys gwallau ffeithiol) i unrhyw ddarlledwr yn rhesymol, ac roedd yn teimlo nad oedd Ofcom yn rhoi unrhyw sail resymegol dros newid ei arfer presennol o roi 48 awr i ddarlledwyr i ymateb gyda chywiriadau. Gwnaeth ITV/STV yr un sylwadau mewn ymateb i ymgynghoriad gwahanol gan Ofcom ar ein gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob darlledwr arall, yn yr un modd ag A+E Networks, BT, Channel 4, a Radio Centre[23].

2.39 Mae Ofcom yn nodi’r safbwyntiau sydd wedi'u crynhoi ym mharagraff 2.43. Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno, bydd y sawl sy'n cwyno yn cael gwybod y byddwn yn dweud beth yw canlyniad y gŵyn yn y Bwletin Darlledu ac Ar Alwad a gyhoeddir bob pythefnos. Drwy gyhoeddi cofnod o'r cwynion sydd wedi dod i law yn y Bwletin (a llunio rhestr ar wahân o’r rheini fydd, ar ôl eu hasesu’n ofalus, yn mynd ymlaen i gael eu hymchwilio a’r rheini sydd ddim yn codi materion o dan y Cod yn ein barn ni), ynghyd â chanlyniadau ein hymchwiliadau, gall y rheini sydd wedi cwyno weld beth yw hanes eu cwynion. Bydd Ofcom yn cyhoeddi penderfyniadau llawn am gwynion sydd wedi mynd ymlaen i gael eu hymchwilio lle mae wedi canfod bod y BBC wedi torri’r amodau. Am y rhesymau a nodir ym mharagraff 2.40 uchod, rydym ni o'r farn bod hyn yn briodol yn yr amgylchiadau, ac nad yw’n golygu bod y rheini sy'n cwyno yn cael eu trin yn annheg.

2.40 Mae Ofcom o'r farn bod un diwrnod gwaith yn ddigon o rybudd i’r BBC a darlledwyr eraill, yn yr un modd â’r rhanddeiliaid yn y sectorau eraill sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom. Rydym ni’n teimlo ei bod yn ddymunol i’r cyfnod rhybudd fod yn gyson â’r cyfnod yn ein gweithdrefnau gorfodi, a bod un diwrnod gwaith yn briodol o gofio pa mor bwysig yw sicrhau bod prosesau Ofcom yn effeithlon ac yn agored. Rydym hefyd yn nodi, ers i'r gweithdrefnau blaenorol gael eu cyflwyno yn 2011, mai anaml iawn y daethpwyd o hyd i unrhyw wallau ffeithiol yn ystod y cyfnod o 48 awr cyn cyhoeddi, sef y ddarpariaeth yn y gweithdrefnau hynny.

### Ystyried sancsiynau

2.41 Roedd y ffordd y bydd Ofcom yn ystyried sancsiynau ar gyfer achosion lle mae’r BBC wedi torri safonau cynnwys yn cyd-fynd, i’r graddau sy’n briodol, â’r ffordd y mae’n delio â darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar alwad eraill. Gwnaethom gynnig, fel gyda darlledwyr a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar alwad eraill, y bydd modd i ni roi sancsiwn os ydym yn credu bod y BBC wedi torri’r Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu’n ddi-hid.

2.42 Roedd UKLFI o'r farn bod trin cyfarwyddiadau i beidio ag ailddarlledu rhaglen, neu i gynnwys cywiriad a/neu ddatganiad ynghylch canfyddiadau Ofcom, fel sancsiwn yn “anghywir mewn egwyddor ac yn anfoddhaol iawn”, a byddai'n arwain at “oedi gormodol”. Dywedodd UKLFI na ddylai Ofcom ofyn am gywiriadau dim ond pan mae’r BBC wedi torri’r Cod yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu’n ddi-hid, ond y dylai wneud hynny pryd bynnag mae’r BBC wedi darlledu cynnwys sy'n gamarweiniol iawn neu sydd ddim yn sicrhau didueddrwydd dyladwy.

[23] Edrychwch ar baragraffau 2.43 i 2.47 Datganiad Ofcom ar Weithdrefnau ar gyfer delio ag ymchwiliadau a sancsiynau yng nghyswllt safonau cynnwys a thrwyddedu darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alwad a darlledwyr eraill: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing

2.43 Mae pwerau Ofcom i roi sancsiynau ar y BBC wedi'u nodi yn y Siarter ac yn y Cytundeb. Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, gallwn gyfarwyddo’r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau a fydd, yn ein barn ni:

- yn gwneud iawn am y methiant i gydymffurfio;
- yn sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â’i ofynion yn iawn yn y dyfodol.

Cawn hefyd roi dirwy. Ni ddylai Ofcom ddefnyddio’r pwerau hyn oni bai ei fod wedi rhoi cyfle rhesymol i’r BBC wneud sylwadau.[24]

2.44 Rydym ni’n teimlo bod y mathau o sancsiynau a’r gweithdrefnau'n ymwneud â sancsiynau a gynigiwyd yn cyd-fynd â’r Siarter a’r Cytundeb, a bod y cynnig i ystyried rhoi sancsiwn os yw’r BBC wedi methu cydymffurfio â’r Cod yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu’n ddi-hid, yn briodol. Mae’n cyd-fynd ag agwedd Ofcom at sancsiynau ar gyfer yr holl ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar alwad a darlledwyr eraill, a’n gallu presennol i osod sancsiynau ar y BBC.

**Newidiadau i’n gweithdrefnau presennol**

2.45 Fel y nodwyd ym mharagraff 1.12 uchod, mae Ofcom hefyd wedi ymgynghori ar nifer bach o newidiadau i’n gweithdrefnau presennol ar gyfer darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar alwad a darlledwyr eraill, gan gynnwys cwmnïau masnachol y BBC a drwyddedir gan Ofcom. Nod y cynigion hyn oedd sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer pob darlledwr yn cyd-fynd â’r gweithdrefnau newydd arfaethedig ar gyfer delio â chwynion ac ymchwiliadau'r BBC.

2.46 Roedd y newidiadau sylweddol sy’n berthnasol i ymchwiliadau i faterion safonau cynnwys, a chwynion yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd yn benodol, yn cynnwys:

- egluro swyddogaethau aelodau’r Bwrdd Cynnwys yn ein hymchwiliadau a'r camau gwneud penderfyniadau;
- esbonio y bydd, mewn unrhyw un ymchwiliad, aelod gwahanol o Bwyllgor Gwaith Ofcom yn gwneud y penderfyniad ar y cam Safbwynt Rhagarweiniol ac ar y cam Penderfyniad Terfynol;
- sicrhau y caiff y darlledwr wneud cais am gyfle i gyflwyno sylwadau llafar ar ôl Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom; a
- newid sut byddwn yn rhoi gwybod i ddarlledwyr am ein penderfyniad terfynol cyn cyhoeddi.

2.47 Roedd y newidiadau sylweddol sy’n berthnasol i ystyried rhoi sancsiynau yn cynnwys:

- egluro faint a phwy fydd yn gwneud penderfyniadau, gan ddibynnu ar natur y tor-amod sy’n cael ei ystyried ar gyfer sancsiwn;

[24] Erthygl 49 y Siarter.

- sicrhau y bydd Ofcom bob tro'n cynnig cyfle i'r darlledwr wneud sylwadau llafar ar ôl Safbwynt Rhagarweiniol; a

- newid sut byddwn yn rhoi gwybod i ddarlledwyr am y penderfyniad terfynol ynghylch sancsiwn cyn cyhoeddi.

2.48 Gellir gweld yr ymatebion a gafodd Ofcom i'r cynigion hyn, a'n penderfyniadau yn eu cylch, yn y datganiad ar yr ymgynghoriad hwnnw[25]. Yn sgil yr ymatebion i'r cynigion hynny, mae Ofcom wedi ychwanegu, er eglurder, y frawddeg ganlynol at baragraff A2.29 y gweithdrefnau ar gyfer ystyried cwynion yn ymwneud â thegwch a phreifatrwydd yn Atodiad 2: *"Dim ond safbwynt dros dro yw'r safbwynt rhagarweiniol hwn, a gallai newid yn sgil sylwadau/deunyddiau dilynol gan y sawl sy'n cwyno a'r BBC[26]: edrychwch ar baragraffau 2.31 a 2.32 isod."*

[25] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/review-procedures-handling-content-standards-and-broadcast-licensing

[26] gan gynnwys unrhyw drydydd parti perthnasol (gweler y blwch testun "Sylwadau gan drydydd partïon" [yn y gweithdrefnau] isod).

Atodiad 1

# Gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC

## Cyflwyniad

A1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer delio â chwynion a datrys cwynion (neu ar gyfer cynnal ei ymchwiliadau ei hun) am gydymffurfiad y BBC â'r safonau cynnwys sydd wedi cael eu gosod o dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") a Siarter a Chytundeb y BBC.[27] These Procedures are effective from 3 April 2017.[28]

A1.2 Mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU ("Gwasanaethau Darlledu'r BBC") a Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alwad Cyhoeddus y BBC yn y DU ("Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alwad y BBC")[29]

A1.3 O dan Siarter a Chytundeb y BBC, nid oes gan Ofcom gylch gwaith i ystyried cwynion sy'n ymwneud â'r World Service ac nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ddeunydd sy'n cael ei ddarlledu ar y BBC World Service.

A1.4 Mae gweithdrefnau sy'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan gwmnïau darlledu masnachol y BBC a drwyddedir gan Ofcom a gweithdrefnau sy'n berthnasol i wasanaethau rhaglenni ar alwad masnachol y BBC y mae'n rhaid hysbysu Ofcom amdanynt ar gael ar wahân ar wefan Ofcom.[30] Further, separate procedures apply to the consideration of Fairness and/or Privacy complaints.[31]

A1.5 Os teimla Ofcom ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol, am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn yn briodol neu gynnal ymchwiliad, bydd yn ysgrifennu at y BBC (ac unrhyw bartïon perthnasol eraill) ymlaen llaw yn nodi natur/hyd a lled ei wyriad oddi wrthynt a'i resymau dros wneud hynny.

A1.6 Oherwydd y bydd deunyddiau sydd ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC (o'i gymharu â deunyddiau darlledu) yn aml yn dal ar gael i'w gweld, efallai y bydd perygl o niwed o ganlyniad i dorri safonau cynnwys yn parhau. Un enghraifft o adeg pan allai felly fod yn briodol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn (yn enwedig er mwyn cyflymu'r broses) yw pan fydd achos posibl o dorri'r safonau yn golygu anogaeth (*incitement*) neu ddiogelu pobl ifanc dan ddeunaw oed, a'r deunydd yn dal ar gael i'w wylio.

---

[27] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[28] Efallai fod dulliau eraill o wneud iawn ar gael i'r rheini sy'n cwyno drwy'r llysoedd sifil. Efallai y bydd y rheini sy'n cwyno am gael cyngor cyfreithiol.
[29] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).
[30] https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures
[31] [Mae'r gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion Tegwch a Phreifatrwydd y BBC ar gael yn Atodiad 2 y ddogfen hon.]

## Fframwaith statudol

A1.7 Mae gan Ofcom ddyletswyddau mewn perthynas â darlledu sy'n cynnwys sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunyddiau sy'n achosi tramgwydd a niwed mewn gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(e) o Ddeddf 2003.

A1.8 Wrth wneud yn siŵr fod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003.

A1.9 Mae gan Ofcom ddyletswydd arall dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i'w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol. Mae'r amcanion safonau hynny ar gael yn adran 319(2), ac mae'n rhaid i Ofcom sefydlu codau sy'n cynnwys y safonau hyn. At ddibenion y ddyletswydd honno, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau Cod Darlledu Ofcom ("y Cod Darlledu").[32]

A1.10 Mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC yn rhinwedd adran 198 o Ddeddf 2003 i'r graddau y mae darpariaeth i wneud hynny wedi cael ei gynnwys yn Siarter a Chytundeb y BBC, Deddf 2003 a Rhan 5 o Ddeddf Darlledu 1996. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn gosod dyletswyddau'r BBC i gydymffurfio â'r Cod Darlledu a phwerau Ofcom i ymchwilio a gorfodi'r BBC i gydymffurfio.

A1.11 O dan Siarter a Chytundeb y BBC, yn ogystal â gwasanaethau darlledu'r BBC yn y DU, rhaid i wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC gydymffurfio â'r Cod Darlledu i'r graddau y bydd Ofcom yn pennu bod y safonau'n berthnasol i'r hyn a ddarperir gan wasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.[33]

A1.12 O dan Gytundeb y BBC rhaid i Ofcom lunio a chyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion y mae'n eu cael am y BBC, a'u datrys. Bydd y cwynion a'r ymchwiliadau sy'n ymwneud â'r safonau a ddaw dan y Cod Darlledu (ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd) yn cael eu llywio gan y Gweithdrefnau hyn.

A1.13 Caiff Ofcom lansio ymchwiliadau ei hun yn ogystal ag ymchwilio i gwynion. Mae'r Gweithdrefnau sy'n cael eu dilyn mewn ymchwiliad sy'n cael ei dywys gan y gŵyn ac ymchwiliad sydd wedi'i gychwyn gan Ofcom yr un fath.

[32] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/95760/Broadcasting-Code-Review.pdf ac eithrio Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y bydd Ofcom yn eu defnyddio mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd dan weithdrefnau gwahanol: edrychwch ar baragraff A1.4 uchod.

[33] Mae gwasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC hefyd yn rhwym wrth ofynion statudol penodol o dan Ran 4A o Ddeddf 2003, gan gynnwys rheolau mewn perthynas â deunydd niweidiol a gosod cynnyrch.

# Gweithdrefnau

## Gwneud cwyn

A1.14 Fel rheol dylid anfon cwynion am wasanaethau sy’n cael eu darparu gan y BBC (ar wahân i’r rheini sy’n codi materion sy’n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd) at y BBC[34] yn y lle cyntaf, gan ddefnyddio un o’r dulliau canlynol:

Ar-lein yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/how-to-report-a-complaint

Dros y ffôn ar: 037 0010 0222 neu 037 0010 0212 (ffôn testun)

Drwy'r post, i: BBC Complaints, PO Box 1922, Darlington DL3 0UR

A1.15 Fel arfer, dim ond cwyn sydd wedi cael ei hystyried gan y BBC yn gyntaf y bydd Ofcom yn ei derbyn. Mae’r BBC yn ystyried cwynion yng nghyd-destun ei Ganllawiau Golygyddol, sy’n adlewyrchu darpariaethau perthnasol y Cod Darlledu.

A1.16 Mae modd i unrhyw unigolyn neu gorff sy’n credu bod y BBC wedi methu cydymffurfio â’r Cod Darlledu yng nghyswllt ei wasanaethau darlledu sy’n cael eu hariannu gan ffi'r drwydded a/neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC, gyflwyno cwyn i Ofcom yn yr amgylchiadau canlynol.

a) os ydy'r sawl sy’n cwyno yn anfodlon â’r ffordd mae’r BBC wedi datrys cwyn;

b) os ydy'r sawl sy’n cwyno yn credu, ar ôl i’r BBC ddatrys cwyn, y gallai fod yn briodol i Ofcom roi sancsiwn i’r BBC, pan fydd hynny ar gael;

c) mae’r BBC wedi methu datrys cwyn yn y cyfnod a nodir yng ngweithdrefnau perthnasol y BBC.

A1.17 Edrychwch ar baragraffau A1.24 i A1.26 isod i weld y manylion am y cyfnodau sy’n berthnasol ar gyfer cyfeirio cwynion at Ofcom.

A1.18 Mewn amgylchiadau eithriadol, caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chwyn nad yw wedi cael ei datrys gan y BBC a’i datrys ei hun. Mae amgylchiadau o’r fath yn gallu cynnwys (ond nid dim ond y rhain) Ofcom yn pryderu ynghylch deunyddiau sydd: yn debyg o annog rhywun neu ryw rai i droseddu; a allai achos niwed ariannol neu gorfforol, neu niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed; cynnwys pobl ifanc dan 18 oed mewn rhaglen neu gyfres; sy’n codi materion problematig o natur systematig yn y diwydiant darlledu a all effeithio ar y BBC; sydd wedi arwain at gŵyn chwythwr chwiban na fyddai’n briodol efallai i’r BBC ei datrys yn y lle cyntaf[35]. Bydd penderfyniad Ofcom i gamu i mewn yn gynt mewn unrhyw gŵyn o’r fath yn dibynnu ar y ffeithiau perthnasol ym mhob achos.

A1.19 Bydd Ofcom yn ystyried y gŵyn ac ymateb terfynol y BBC iddi gan gyfeirio at y Cod Darlledu. Dyma adrannau perthnasol y Cod Darlledu (https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code):

---

[34] Nid yw’r dull gweithredu ‘BBC yn Gyntaf’ hwn yn berthnasol i gwynion i’r BBC am Degwch a/neu Breifatrwydd, y dylid eu cyflwyno’n uniongyrchol i Ofcom.
[35] Gweler paragraff A1.23 a throednodyn 32

- Amddiffyn Pobl Ifanc dan Ddeunaw Oed (Adran Un);
- Niwed a Thramgwydd (Adran Dau);
- Trosedd, Anhrefn, Casineb a Chamdriniaeth (Adran Tri);
- Crefydd (Adran Pedwar);
- Didueddrwydd Dyladwy a Chywirdeb Dyladwy a Rhoi Amlygrwydd Gormodol i Farnau a Safbwyntiau (Adran Pump);
- Etholiadau a Refferenda (Adran Chwech);
- Cyfeiriadau Masnachol mewn Rhaglenni Teledu (Adran Naw);
- Cyfathrebiadau Masnachol mewn Rhaglenni Radio (Adran Deg);

A1.20 Rhaid i gwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd dan Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y Cod Darlledu gael eu gwneud yn unol â Gweithdrefnau Ofcom ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion am Degwch a Phreifatrwydd y BBC": ar gael yn Atodiad 2 isod.

## Ffurf y gŵyn a'r wybodaeth i'w darparu

A1.21 Mae Ofcom yn gofyn i bob cwyn gael ei chyflwyno ar ei ffurflen gwyno, sydd ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/how-to-report-a-complaint. Fel arall gallwch chi gysylltu â ni yn: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA, neu ffonio 0300 123 3333 neu 020 7981 3040. Os oes gennych chi ffôn testun gallwch chi ffonio 020 7981 3043 (fydd y rhif hwn ond yn gweithio gydag offer arbennig sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl fyddar neu drwm eu clyw). I gysylltu ag Ofcom drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gael ar wefan Ofcom.

A1.22 Dylai'r holl gwynion gynnwys digon o fanylion am fater y gŵyn. Yn benodol, dylai pob cwyn gynnwys:

- enw/teitl y rhaglen[36] mae'r gŵyn yn berthnasol iddi;
- dyddiad ac amser (darlledu) y rhaglen neu'r dyddiad pan ddefnyddiwyd gwasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC;
- y sianel y cafodd y rhaglen ei darlledu arni neu ei lleoliad ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC;
- natur y gŵyn a (phan fo'n bosibl) rhannau penodol y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- manylion cyswllt llawn y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys cyfeiriad e-bost os oes un ar gael);

[36] Mae cyfeiriadau at "raglenni" yn y Gweithdrefnau hyn yn cynnwys teledestun, is-deitlau ac unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys yng ngwasanaethau darlledu'r BBC neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC.

- pryd cyflwynodd y sawl sy'n cwyno gŵyn i'r BBC;
- yr ymateb terfynol a gafodd y sawl sy'n cwyno gan y BBC, neu os yw'r BBC wedi methu gwneud penderfyniad cyn pen diwedd y cyfnod sy'n cael ei nodi yn ei weithdrefnau ei hun, yr ohebiaeth ddiweddaraf gan y BBC ynghylch y mater; ac
- unrhyw ddeunydd arall mae'r sawl sy'n cwyno yn credu sy'n berthnasol.

Mae'n bwysig iawn cynnwys y manylion hyn (neu gynifer ohonynt ag sy'n bosibl). Gall methu â'u darparu olygu na fydd Ofcom yn gallu ymchwilio i'r gŵyn.

A1.23 Oni bai fod y sawl sy'n cwyno'n gofyn yn benodol adeg cyflwyno'r gŵyn y dylid cadw ei enw a'i fanylion cyswllt yn gyfrinachol, caiff Ofcom ddatgelu'r rhain i'r BBC. Bydd Ofcom yn ystyried ceisiadau gan bobl sy'n cwyno i aros yn ddienw[37].

## Pryd mae modd cyflwyno cwyn

A1.24 Fel y nodir ym mharagraff A1.15 uchod, yn y lle cyntaf dylai'r rheini sy'n cwyno (ac eithrio'r rheini y mae eu cwynion yn berthnasol i Adran Saith (Tegwch) neu Wyth (Preifatrwydd) y Cod Darlledu) gyflwyno eu cwyn yn y lle cyntaf i'r BBC yn unol â gweithdrefn gwyno'r BBC ei hun, sy'n nodi y dylid cyflwyno cwynion cyn pen 30 diwrnod gwaith o'r darllediad neu'r dyddiad pan ymddangosodd y rhaglen ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC am y tro cyntaf. Fel arfer, ni fydd Ofcom yn derbyn cwyn nad yw wedi cael ei hystyried gan y BBC yn gyntaf.

A1.25 [Mae gan y BBC [X] diwrnod gwaith i ystyried cwyn a darparu ymateb terfynol i'r sawl sydd wedi cwyno o dan ei weithdrefnau ei hun[38]] (y cyfeirir ato yn y gweithdrefnau hyn fel "dyddiad cau'r BBC"). Dylai'r sawl sy'n cwyno aros i weld a ydyn nhw'n fodlon ar ymateb terfynol y BBC cyn cyfeirio cwyn at Ofcom. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno yn fodlon (neu'n credu y gallai fod yn briodol i Ofcom rhoi sancsiwn i'r BBC), dylai'r sawl sy'n cwyno gyfeirio ei gŵyn at Ofcom (gydag ymateb terfynol y BBC) cyn gynted ag sy'n bosibl, ac yn sicr cyn pen 20 diwrnod gwaith o gael yr ymateb terfynol gan y BBC o dan ei weithdrefnau. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno wedi cael ymateb terfynol i'w gwyn erbyn dyddiad cau'r BBC, mae modd iddo gyflwyno'r gŵyn i Ofcom a dylai wneud hynny cyn pen 20 diwrnod gwaith o ddyddiad cau'r BBC.

A1.26 Os cyflwynir cwyn dros 20 diwrnod gwaith ar ôl ymateb terfynol y BBC (neu os na chafwyd ymateb, dros 20 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad cau y BBC), dylai'r rheini sy'n cwyno egluro pam na chafodd y gŵyn ei chyflwyno'n gynharach. Bydd Ofcom wedyn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy'n cwyno dros yr oedi cyn cyflwyno'r gŵyn a'r cyfnodau cyfyngedig y mae'n rhaid i'r

[37] Nid yw hyn yn berthnasol i chwythwyr chwiban. Mae Ofcom yn "unigolyn a ragnodir" dan Ran IVA o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998) y mae modd gwneud "datgeliadau cymwys" iddo ynghylch rhai materion, gan gynnwys darlledu a darparu gwasanaethau teledu a radio. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad (sydd ar gael ar ein gwefan yn: https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/policies-and-guidelines) ynghylch sut caiff unigolion sy'n gweithio yn y sector cyfathrebu gysylltu â ni os oes ganddynt bryderon ynghylch camwedd posibl yn eu sefydliad eu hunain (neu eu cyn sefydliad) a lle na fu modd iddynt godi neu ddatrys y pryderon hynny'n fewnol.

[38] [Details to be inserted when the BBC has published its interim complaints handling procedures.]

BBC gadw recordiadau)[39] wrth benderfynu a ddylai Ofcom ymchwilio i'r gŵyn ai peidio er iddi gael ei chyflwyno'n hwyr.

A1.27 Mewn amgylchiadau eithriadol (edrychwch ar baragraff A1.18 uchod), caiff Ofcom gamu i mewn yn gynharach ac ystyried cwynion nad ydyn nhw wedi cael eu hystyried gan y BBC neu nad yw'r BBC wedi penderfynu arnyn nhw.

## Asesiad cychwynnol Ofcom o gŵyn

A1.28 Mae pob cwyn yn bwysig i Ofcom gan eu bod yn ein helpu i ddeall a ydy'r BBC yn methu cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Cod Darlledu mewn achos penodol. Bydd Ofcom yn cofnodi ac yn cydnabod pob cwyn a gaiff. Bydd Ofcom yn cynnal asesiad cychwynnol, fel a ganlyn.

A1.29 Yn gyntaf, bydd Ofcom yn ystyried a yw cwyn, ar yr olwg gyntaf, yn codi materion a allai fod yn sylweddol o dan y Cod Darlledu a fydd yn cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom. Bydd yn gwneud hynny gan gyfeirio at ddifrifoldeb a/neu hyd a lled y mater dan sylw, gan gynnwys, er enghraifft, a yw'n ymwneud â niwed i bobl ifanc dan ddeunaw oed a/neu niwed ariannol neu gorfforol difrifol; ac a yw Ofcom yn credu bod y BBC wedi gwneud penderfyniad priodol ynghylch y mater. Yn ogystal, os yw Ofcom o'r farn bod y BBC wedi gwneud penderfyniad priodol, bydd yn ystyried a fydd sancsiwn gan Ofcom yn erbyn y BBC yn briodol.

A1.30 Caiff Ofcom ofyn i'r BBC am gopi o'r rhaglen berthnasol ar y cam hwn, ac mae'n rhaid darparu'r copi hwnnw cyn pen pum niwrnod gwaith.[40] Caiff hefyd ofyn am unrhyw dystiolaeth neu ddeunydd cefndir arall a allai, yn ein barn ni, fod yn berthnasol i asesiad cychwynnol Ofcom o'r gŵyn. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn gofyn am sylwadau ysgrifenedig gan y BBC ar y cam hwn, fel arfer.

A1.31 Ar sail asesiad cychwynnol Ofcom o'r gŵyn, ymateb terfynol y BBC i'r gŵyn dan ei weithdrefnau ei hun, ac unrhyw ddeunydd/dystiolaeth berthnasol arall gan y BBC, bydd Ofcom yn ystyried a dorrwyd unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Cod Darlledu sydd, ym marn Ofcom, yn gofyn am ragor o waith ymchwilio.

A1.32 Os cred Ofcom nad oes mater o sylwedd yn cael ei godi o dan y Cod sy'n cyfiawnhau ymchwiliad gan Ofcom, yna bydd yn penderfynu peidio ag ymchwilio rhagor i'r gŵyn a bydd yn hysbysu'r sawl sy'n cwyno drwy gyhoeddi ei benderfyniad yn ei Fwletin Darlledu ac Ar Alwad, sy'n cael ei gyhoeddi bob bythefnos ar ei wefan: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.[41]

---

[39]Mae Ofcom wedi penderfynu y bydd yn rhaid i'r BBC gadw recordiadau o raglenni radio am o leiaf 42 diwrnod ar ôl darlledu; recordiadau o raglenni teledu am o leiaf 90 diwrnod ar ôl darlledu; a chopïau o raglenni sydd wedi bod ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC am o leiaf 42 diwrnod ar ôl iddyn nhw beidio â bod ar gael i'w gwylio. Os bydd cwyn, rhaid i'r BBC gadw'r recordiadau neu'r copïau perthnasol, ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig, am y cyfnodau hynny, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n rhesymol i'r BBC ddisgwyl y byddai'r sawl sy'n cwyno wedi cael ei ymateb terfynol i'r gŵyn. [40] O dan Gytundeb y BBC, rhaid i'r BBC gydymffurfio ag unrhyw gais i ddarparu recordiad o raglenni ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig i Ofcom.

[40] O dan Gytundeb y BBC, rhaid i'r BBC gydymffurfio ag unrhyw gais i ddarparu recordiad o raglenni ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig i Ofcom.

[41] Gall hyn gynnwys amgylchiadau pan oedd cwyn yn codi mater o sylwedd o dan y Cod ond bod y mater wedi cael sylw priodol gan y BBC ac nad oedd cyfiawnhad dros gynnal ymchwiliad gan Ofcom

A1.33 Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau ei asesiad cychwynnol o unrhyw gŵyn cyn pen 15 diwrnod gwaith.

### Ymchwilio i achosion posibl o dorri'r Cod

A1.34 Ac eithrio'r achosion a ddaw dan baragraff A1.35 isod, pan fydd Ofcom yn credu bod angen gwneud rhagor o waith ymchwilio, bydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC yn gofyn am sylwadau. Bydd Ofcom yn crynhoi prif bwyntiau'r gŵyn, yn nodi'r darpariaethau penodol yn y Cod Darlledu y mae'n credu sy'n berthnasol i'r gŵyn, ac yn gwahodd y BBC i gyflwyno sylwadau i ymateb i hynny (gan gynnwys unrhyw ddeunyddiau/dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi ei sylwadau) cyn pen 10 diwrnod gwaith. Caiff Ofcom ofyn i'r BBC ddarparu deunydd/tystiolaeth a gafwyd wrth iddo ef ei hun ystyried y gŵyn.[42] Bydd Ofcom yn cyhoeddi manylion rhaglenni sy'n destun ymchwiliad ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/.

A1.35 Efallai y bydd achosion pan fydd y mater(ion) dan sylw, ar sail y ffeithiau, yn golygu na fydd Ofcom yn credu bod angen gofyn am sylwadau gan y BBC er mwyn llunio Safbwynt Rhagarweiniol. Mewn achosion o'r fath, bydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC gyda'i Safbwynt Rhagarweiniol amy gŵyn, fel y nodir ym mharagraff A1.38 isod.

A1.36 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r achosion y bydd yn penderfynu ymchwilio iddynt cyn pen 50 diwrnod gwaith.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio ar rai pobl/cyrff yn uniongyrchol, ac fe allai fod ganddynt fuddiannau sy'n annibynnol ar y BBC (e.e. cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu wneuthurwyr rhaglenni annibynnol). Ble bynnag y bo modd, dylai'r BBC geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau mewn ymateb i gŵyn a chadarnhau wrth Ofcom ei fod wedi gwneud hynny.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â chwyn y bydd Ofcom yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddi. Mewn achos o'r fath, dylai pobl/cyrff geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad i gŵyn, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r BBC. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses gwneud penderfyniadau dan y Gweithdrefnau hyn.

Nodyn: Fel rheol nid yw'r rheini sy'n cwyno yn drydydd partïon y bydd Ofcom yn gofyn am sylwadau ganddyn nhw fel rhan o ymchwiliad i safonau.

Mae manylion am ymchwiliadau byw Ofcom ar gael yn ei Fwletinau Darlledu ac Ar Alwad yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

---

[42] O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, caiff Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth er mwyn i Ofcom allu cyflawni ei ddyletswyddau. Rydyn ni'n pwyso ac yn mesur a ydyn ni angen rhagor o ganllawiau ar ein pwerau cyffredinol i gasglu gwybodaeth a bydd hyn yn cynnwys ystyried a ydyn ni angen canllawiau o'r fath ar gyfer trydydd partïon.

Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

A1.37 Bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig y BBC pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond safbwynt dros dro yw'r Safbwynt Rhagarweiniol hwn a gallai newid gan ddibynnu ar sylwadau/deunyddiau dilynol a ddarperir gan y BBC[43]: edrychwch ar baragraffau A1.40 ac A1.41 isod.

A1.38 Bydd yr holl Safbwyntiau Rhagarweiniol drafft yn cael eu rhoi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[44] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma fyddai'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad. Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r gŵyn;
- crynodeb o ddarnau perthnasol y rhaglen/darllediad y mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- crynodeb o sylwadau'r BBC;
- darpariaethau penodol y Cod Darlledu y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o'r darpariaethau hynny eu torri a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

A1.39 Os bydd Ofcom yn credu mewn unrhyw achos bod angen cael rhagor o wybodaeth i sicrhau ei fod yn gallu llunio ei Safbwynt Rhagarweiniol yn deg ac yn briodol, gall Ofcom ofyn am wybodaeth o'r fath cyn llunio'r safbwynt hwnnw[45].

A1.40 Pan fydd Ofcom wedi paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd Ofcom yn ei roi i'r BBC (ac unrhyw drydydd parti perthnasol) ac yn gofyn am sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith.

A1.41 Mae Ofcom o'r farn y bydd fel rheol yn gallu penderfynu'n deg ac yn briodol ar ôl cael sylwadau ysgrifenedig a heb gael sylwadau llafar gan y BBC. Serch hynny, caiff y BBC, mewn unrhyw achos penodol, wneud cais ysgrifenedig i gyflwyno ei sylwadau ar lafar i Ofcom yn ogystal â chyflwyno unrhyw sylwadau ysgrifenedig. Bydd Ofcom yn cytuno ar gais o'r fath os yw'n credu bod gwrandawiad llafar yn briodol wrth ystyried natur y tor-amod dan sylw a chymhlethdod y materion a godir[46].

## Y Penderfyniad terfynol

[43] gan gynnwys unrhyw drydydd parti perthnasol (gweler y blwch testun "Sylwadau gan drydydd partïon" isod).
[44] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board
[45] O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, caiff Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth er mwyn i Ofcom allu cyflawni ei ddyletswyddau (gweler troednodyn 38).
[46] Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai'n cadeirio unrhyw wrandawiad llafar

A1.42 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau'r BBC (a/neu unrhyw sylwadau gan drydydd parti perthnasol) ar ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd yn dod i’w benderfyniad terfynol.

A1.43 Bydd pob penderfyniad drafft yn cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud penderfyniad terfynol. Bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan uwch aelod o bwyllgor gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd, na fydd wedi bod yn ymwneud â’r ymchwiliad a/neu’r gwaith o baratoi’r Safbwynt Rhagarweiniol.

### Cyhoeddi Penderfyniad

A1.44 Cyn i Ofcom gyhoeddi’r Penderfyniad, bydd yn rhoi copi o’r Penderfyniad dan embargo i’r BBC, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi. Bydd y Penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ym Mwletin Darlledu ac Ar Alwad Ofcom ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

### Peidio â Datgelu

A1.45 Mae’n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a’i allu i reoleiddio’n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a’r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy’n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

> **Peidio â Datgelu**
>
> Oni nodir yn wahanol, caiff partïon mewn cŵyn (y rheini sy’n cwyno, y BBC, Ofcom ac unrhyw drydydd partïon yr effeithir arnynt yn uniongyrchol) gyhoeddi’r ffaith bod cwyn wedi cael ei gwneud neu fod Ofcom wrthi’n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.
>
> Serch hynny, ni ddylai’r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy’n ymwneud â’r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad.[47]
>
> Gall methu â dilyn y gofyniad hwn olygu bod Ofcom yn rhoi’r gorau i ystyried sylwadau’r parti.
>
> Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.[48]

### Cyfyngiadau amser

A1.46 Dylai'r rheini sy’n cwyno a’r BBC gofio’r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er

[47] Mae’n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy’n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o’r fath.
[48] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio ac wrth gyhoeddi ei benderfyniad) ddal deunyddiau yn ôl os yw’n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i’r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu os yw’n rhwym wrth ddyletswyddau cyfreithiol eraill i’w diogelu rhag cael eu datgelu. Mewn achosion o’r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

budd tegwch a/neu er mwyn cynnal ymchwiliad) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau mewn achos penodol. Os bydd y sawl sy'n cwyno neu'r BBC yn gofyn am estyniad i'r cyfnod, dylen nhw roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam eu bod yn credu bod hynny'n briodol.

## Sancsiynau

A1.47 Pan fydd Ofcom yn penderfynu bod y safonau a bennir o dan adran 319 o Ddeddf 2003 a Siarter a Chytundeb y BBC (fel yr adlewyrchir yn narpariaethau'r Cod Darlledu) wedi cael eu torri, gall Ofcom benderfynu bod hyn yn cyfiawnhau ystyried rhoi sancsiwn yn erbyn y BBC. Bydd Ofcom yn egluro penderfyniad o'r fath yn ei Benderfyniad (o dan baragraffau A1.42 i A1.43, uchod) a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC" wedyn yn berthnasol (mae eu manylion yn Atodiad 3 y ddogfen hon).

## Cyflymu'r broses

A1.48 Mewn rhai amgylchiadau, caiff Ofcom gyflymu'r broses sy'n cael ei disgrifio uchod (fel y nodir ym mharagraff A1.5). Dyma enghreifftiau o'r adegau pan allai hyn ddigwydd (ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- pan fydd Ofcom yn credu bod perygl parhaus o niwed, o ganlyniad, er enghraifft, i gynnwys pobl ifanc dan 18 oed mewn cyfres sy'n parhau;
- pan fydd Ofcom yn credu bod perygl parhaus o niwed oherwydd bod y deunydd yn dal ar gael i'w wylio ar alwad ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC; a
- phan fydd pryderon am ddidueddrwydd dyladwy yn codi yn ystod cyfnod etholiad neu gyfnod refferendwm y mae'n rhaid eu datrys yn ystod y cyfnod hwnnw.

A1.49 Gall cyflymu olygu bod Ofcom yn camu i mewn yn gynharach er mwyn delio â chŵyn a'i datrys os nad yw wedi cael ei datrys gan y BBC[49], gan ganiatáu llai o lawer o amser i ddarparu deunyddiau a gwybodaeth arall, a chaniatáu llai o lawer o amser i ddarparu unrhyw sylwadau. Bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r BBC beth yw'r dyddiadau cau ar gyfer cael ymatebion yn y cyfryw achosion.

[49] Bydd ymyriadau o'r fath fel rheol yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol sy'n gallu cynnwys (ond nid dim ond y rhain) Ofcom yn pryderu ynghylch anogaeth i droseddu, niwed i unrhyw un dan ddeunaw oed, niwed ariannol neu gorfforol difrifol, materion problematig o natur systematig yn y diwydiant darlledu a all effeithio ar y BBC, cynnwys pobl ifanc dan 18 oed mewn rhaglen neu gyfres, neu gwynion chwythwyr chwiban sy'n ymwneud â darlledu.

**Atodiad 2**

# Gweithdrefnau ar gyfer ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC

## Cyflwyniad

A2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Gweithdrefnau y bydd Ofcom yn eu defnyddio i ystyried a dyfarnu ynghylch cwynion sy'n ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd mewn perthynas â chydymffurfiad y BBC â "chod tegwch" Ofcom sydd wedi'i osod o dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") a Siarter a Chytundeb y BBC.[50] These Procedures are effective from 3 April 2017.[51]

A2.2 Mae'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol i Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus y BBC yn y DU a gwasanaethau rhaglenni ar-alwad cyhoeddus y BBC yn y DU[52]. Mae'r gweithdrefnau Tegwch a Phreifatrwydd sy'n berthnasol i wasanaethau darlledu a ddarperir gan gwmnïau darlledu masnachol y BBC a drwyddedir gan Ofcom ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures.

A2.3 Nid oes gan Ofcom gylch gwaith i ystyried cwynion sy'n ymwneud â'r World Service ac nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ddeunyddiau sy'n cael eu darlledu ar y BBC World Service.

A2.4 Os teimla Ofcom ei bod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y Gweithdrefnau hyn mewn unrhyw ffordd o sylwedd mewn achos penodol am resymau sy'n ymwneud â thegwch a/neu er mwyn i Ofcom ystyried cwyn yn briodol neu gynnal ymchwiliad, bydd yn ysgrifennu at y partïon dan sylw ymlaen llaw yn nodi natur/hyd a lled ei wyriad oddi wrthynt, a'r rhesymau dros wneud hynny. (Mae gweithdrefnau ar wahân yn berthnasol i ymchwilio i dorri safonau cynnwys eraill ar gyfer gwasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaeth rhaglenni ar-alwad y BBC, yn https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures).

### Fframwaith statudol

A2.5 Mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003") i (ymysg pethau eraill) sicrhau bod safonau ar waith, ar gyfer pob gwasanaeth teledu a radio, sy'n rhoi digon o amddiffyniad i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n

[50] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement
[51] Efallai fod dulliau eraill o wneud iawn ar gael i'r rheini sy'n cwyno drwy'r llysoedd sifil. Efallai y bydd y rheini sy'n cwyno am gael cyngor cyfreithiol.
[52] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).

deillio o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Wrth wneud yn siŵr fod y safonau hyn yn cael eu dilyn, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i'w sicrhau yn y ffordd sy'n rhoi'r sicrwydd gorau y ceir lefel briodol o ryddid mynegiant: adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003.

A2.6 Mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf 1996 i lunio cod sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch yr egwyddorion a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn[53] mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). At ddibenion y ddyletswydd hon, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau yn Adran Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") Cod Darlledu Ofcom ("y Cod Darlledu").[54]

A2.7 Dan adran 110 o Ddeddf 1996 (ac yn amodol ar ddarpariaethau eraill Rhan 5 o Ddeddf 1996) mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd benodol i ystyried ac i ddyfarnu ar gwynion ynghylch triniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglenni neu darfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn perthynas â chael deunyddiau sydd wedi'u cynnwys ynddynt). (Cyfeirir at y rhain gyda'i gilydd isod fel "Cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd"). Mae Adrannau 111 i 130 o Ddeddf 1996 yn darparu ar gyfer rhai meini prawf statudol penodol y mae'n rhaid eu diwallu cyn i Ofcom allu bwrw ymlaen i ystyried cwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd, yn ogystal â gweithdrefnau penodol sydd i'w dilyn gan Ofcom, y rheini sy'n cwyno a darlledwyr.

A2.8 Serch hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd Ofcom yn credu ei bod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd dan adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003 i sicrhau y gweithredir safonau sy'n rhoi amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd (a phob unigolyn arall) rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen, gall Ofcom ystyried materion tegwch neu breifatrwydd os nad oes cwyn gan "y sawl yr effeithir arno" (gweler paragraff A2.10 a'r blwch testun Penderfyniad i Ystyried isod). Yn yr amgylchiadau eithriadol hynny, byddai Ofcom ymlaen llaw yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n bwriadu eu dilyn.[55] Byddai'r gweithdrefnau'n debyg i'r rhain ond wedi'u haddasu fel sy'n briodol i sicrhau eu bod yn deg yn yr amgylchiadau penodol.

A2.9 Mae Ofcom yn rheoleiddio'r BBC yn rhinwedd adran 198 o Ddeddf 2003 i'r graddau y mae darpariaeth i wneud hynny wedi cael ei gynnwys yn Siarter a Chytundeb y BBC[56], Deddf 2003 a Rhan 5 o Ddeddf 1996. Mae Deddf 1996 yn mynnu bod y BBC yn dilyn Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y Cod Darlledu wrth ddarparu gwasanaethau darlledu ac mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi cael eu cynnwys yn y gwasanaethau hynny. O Dan Siarter a Chytundeb y BBC, rhaid i'r BBC hefyd ddilyn Adrannau Saith ac Wyth wrth ddarparu gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC a rhaid i Ofcom drin cwynion sy'n ymwneud â rhaglen sydd wedi'i chynnwys yng ngwasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC yn yr un ffordd â rhaglenni sy'n cael eu darlledu gan y BBC.

[53] Caiff triniaeth anghyfiawn neu annheg ei diffinio gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy'n anghyfiawn neu'n annheg oherwydd y ffordd cafodd deunyddiau mewn rhaglen eu dewis neu eu trefnu.
[54] https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/95760/Broadcasting-Code-Review.pdf
[55] Fel y bydd Ofcom yn ei wneud, er enghraifft, mewn perthynas â chwynion sy'n cael eu gwneud i'r Pwyllgor Etholiadau.
[56] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

## Gweithdrefnau

### Cwyno: pwy sy'n cael cwyno

A2.10 Mae modd i unigolyn neu gorff o bobl (p'un ai ydynt yn gorfforedig ai peidio) wneud cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd. Serch hynny, fel rheol, mae gan Ofcom ddyletswydd i beidio ag ystyried cwyn o'r fath oni bai ei bod yn cael ei gwneud gan "y sawl yr effeithir arno" neu gan rywun sydd wedi'i awdurdodi ganddo neu ganddi i wneud y gŵyn ar ei ran neu ei rhan: i gael rhagor o fanylion ynghylch pwy sy'n cael cwyno, darllenwch y blwch testun Penderfyniadau i Ystyried isod.

A2.11 Nid yw'r dull gweithredu 'BBC yn Gyntaf', sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cwyno leisio'u pryderon gyda'r BBC i ddechrau, yn berthnasol i gwynion yn ymwneud â Thegwch a/neu breifatrwydd, y gellir eu cyflwyno'n syth i Ofcom. Serch hynny, mae Ofcom yn annog y rheini sydd â phryderon ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd i ddilyn gweithdrefn gwyno'r BBC[57] yn y lle cyntaf, gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol:

Ar-lein yn: https://ssl.bbc.co.uk/complaints/forms/?lang=en&reset=&uid=275022859

Dros y ffôn ar: 037 0010 0222 neu 037 0010 0212 (ffôn testun)

Drwy'r post, i: BBC Complaints, PO Box 1922, Darlington DL3 0UR

A2.12 Os na fydd y sawl sy'n cwyno yn fodlon wedyn ag ymateb terfynol y BBC, mae modd cyflwyno'r gŵyn i Ofcom. Darllenwch baragraffau A2.16 to A2.20 isod i gael gweld y terfynau amser ar gyfer cyflwyno cwyn.

### Ffurf y gŵyn a'r wybodaeth i'w darparu

A2.13 Rhaid cyflwyno cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd i Ofcom yn ysgrifenedig. Fel rheol bydd Ofcom yn ystyried cwynion o'r fath dim ond os ydynt wedi cael eu cyflwyno drwy lenwi ffurflen Cwyn Tegwch a Phreifatrwydd Ofcom, sydd ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/how-to-report-a-complaint. Fel arall gall y rhai sy'n cwyno gysylltu â ni yn: Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, London SE1 9HA; ffôn 030 0123 3333 neu 020 7981 3040. Os oes gennych chi ffôn testun gallwch chi ffonio 020 7981 3043 (fydd y rhif hwn ond yn gweithio gydag offer arbennig sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl fyddar neu drwm eu clyw). I gysylltu ag Ofcom drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain, mae Gwasanaeth Cyfnewid Fideo ar gael ar wefan Ofcom.

A2.14 Dylai pob cwyn gynnwys:

- enw/teitl y rhaglen[58] mae'r gŵyn yn berthnasol iddi;
- dyddiad ac amser (darlledu) y rhaglen neu'r dyddiad pan ddefnyddiwyd gwasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC;

[57] [link to be inserted]
[58] Mae cyfeiriadau at "raglenni" yn y Gweithdrefnau hyn yn cynnwys teledestun, is-deitlau ac unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys yng ngwasanaethau darlledu'r BBC yn y DU neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC.

- y sianel y cafodd y rhaglen ei darlledu arni neu ei lleoliad ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC;

- statws y sawl sy'n cwyno (h.y. ai'r "sawl yr effeithiwyd arno" yw'r sawl sy'n cwyno neu rywun sydd wedi'i awdurdodi gan y "sawl yr effeithiwyd arno" i gwyno ar ei ran: edrychwch ar y blwch testun "Penderfyniadau i Ystyried" (e*ntertainment decisions*) isod);

- natur y gŵyn a (phan fo'n bosibl) rhannau penodol y rhaglen mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;

- manylion cyswllt llawn y sawl sy'n cwyno (gan gynnwys cyfeiriad e-bost pan fo'n briodol);

- a yw'r sawl sy'n cwyno (ac, os felly, pryd) wedi cyflwyno cwyn i'r BBC (a manylion llawn hynny, gan gynnwys ymateb y BBC); ac

- unrhyw ddeunyddiau/dystiolaeth ategol mae'r sawl sy'n cwyno'n credu sy'n berthnasol i sylwedd y gŵyn a/neu eu sefyllfa i gwyno.

A2.15 Mae'n bwysig iawn bod y sawl sy'n cwyno'n darparu cymaint â phosibl o'r manylion hyn wrth gwyno. Gall methu darparu'r manylion hyn rwystro Ofcom rhag dynodi'r rhaglen/deunydd o fewn cyfnod rhesymol ac fe allai olygu oedi neu atal Ofcom rhag gallu ystyried y gŵyn.

### Cyfyngiadau amser ar gwyno

A2.16 Caiff Ofcom wrthod ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd os yw'n ymddangos na chafodd ei gwneud o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y tro diwethaf i'r rhaglen berthnasol gael ei darlledu (neu pan oedd ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC): adran 111(5) o Ddeddf 1996. Yn unol â hynny, dylai'r rheini sy'n cwyno gyflwyno eu cwyn i Ofcom cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl darllediad rhaglen berthnasol neu ar ôl y dyddiad pan gafodd ei ddefnyddio ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC. Fel rheol, ni fydd Ofcom yn derbyn cwyn sy'n cael ei chyflwyno ar ôl y dyddiad cau hwn.

A2.17 Pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno dros 20 diwrnod gwaith ar ôl y darllediad, neu'r adeg pan ddefnyddiwyd y rhaglen ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC, dylai'r rheini sy'n cwyno egluro pam na chafodd y gŵyn ei chyflwyno'n gynharach. Bydd Ofcom wedyn yn pwyso ac yn mesur yr holl ffactorau perthnasol (gan gynnwys esboniad y sawl sy'n cwyno dros yr oedi cyn cyflwyno'r gŵyn) a phenderfynu a yw'n briodol iddo ystyried y gŵyn er gwaethaf yr oedi cyn ei chyflwyno.

A2.18 Os ydy'r sawl sy'n cwyno wedi cwyno'n uniongyrchol wrth y BBC o'r blaen, dylai'r sawl sy'n cwyno aros i weld a yw'n fodlon ar ymateb terfynol y BBC (yn unol â'i weithdrefnau cwyno ei hun) cyn cyfeirio'r gŵyn at Ofcom.[59] If the complainant is not satisfied, the complainant should refer his/her complaint to Ofcom (with the BBC's final response) as soon as possible, and in any event within 20 working days of the final response by the BBC under its procedures. Os na fydd y sawl sy'n cwyno wedi

[59] Rhaid i'r BBC sicrhau bod swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â chwynion ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd yn cael eu dwyn at sylw'r cyhoedd. (Mae'r rhain yn cynnwys swyddogaethau sy'n galluogi'r rheini sy'n cwyno i ofyn i Ofcom ystyried cwynion pan fyddant yn anfodlon â'r ffordd y mae'r BBC wedi ystyried y gŵyn. Ymysg pethau eraill, dylai'r BBC egluro wrth y rheini sy'n cwyno y cyfyngiadau amser sy'n berthnasol ar gyfer mynd ar drywydd cwynion gydag Ofcom).

cael ymateb terfynol gan y BBC ynghylch ei gŵyn, dylai'r sawl sy'n cwyno ei chyflwyno i Ofcom o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad olaf ar gyfer ymateb terfynol y BBC o dan ei weithdrefnau.

A2.19 Pan fydd y sawl sy'n cwyno'n cwyno ar yr un pryd wrth y BBC ac wrth Ofcom, fel rheol, ni fydd Ofcom yn symud ymlaen i ystyried y gŵyn nes i'r BBC gael cyfle yn gyntaf i ddatrys y gŵyn ei hun dan ei weithdrefnau ef. Mewn achos o'r fath, dylai'r sawl sy'n cwyno roi gwybod i Ofcom pan fydd wedi cael ymateb terfynol y BBC, a chadarnhau a yw'n dymuno bwrw ymlaen â'r gŵyn ai peidio. (Bydd amser yn dechrau rhedeg o ddyddiad ymateb terfynol y BBC fel y nodir ym mharagraff A2.18 uchod).

A2.20 Mewn achosion pan fydd cwyn yn cael ei gwneud dan weithdrefnau cwyno'r BBC ei hun, rhaid i'r BBC gadw'r recordiadau perthnasol, ac unrhyw ddeunyddiau perthnasol, am o leiaf 90 diwrnod ar gyfer teledu, ac o leiaf 42 diwrnod ar gyfer radio a gwasanaeth rhaglenni ar-alwad y BBC, gan redeg o'r dyddiad y byddai'n rhesymol i'r BBC ddisgwyl bod y sawl sy'n cwyno wedi cael ei ymateb terfynol.[60]

## Asesu a ddylid ystyried cwyn

A2.21 Pan fydd cwyn yn cyrraedd Ofcom, bydd yn anfon copi ohoni ymlaen at y BBC ac yn gofyn iddo ddarparu recordiad o'r rhaglen cyn pen pum niwrnod gwaith.[61] Ar y cam hwn, ni fyddwn fel arfer yn gofyn i'r BBC gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynghylch sylwedd y gŵyn.

A2.22 Os teimla Ofcom fod angen rhagor o wybodaeth arno gan y sawl sy'n cwyno ar y cam hwn (er enghraifft, am ei statws i wneud cwyn ar ei ben ei hun neu ar ran rhywun arall, neu am sylwedd ei gŵyn), bydd yn ysgrifennu at y sawl sy'n cwyno yn gofyn am wybodaeth o'r fath a bydd hefyd yn ei darparu i'r BBC.

A2.23 Bydd Ofcom wedyn yn penderfynu a fydd yn ystyried y gŵyn neu beidio. Penderfyniad i Ystyried (*Entertainment Decision*) yw'r enw ar y penderfyniad hwn am y gŵyn.

A2.24 Nod Ofcom yw asesu a phenderfynu a yw am ystyried cwyn ai peidio cyn pen 25 diwrnod o dderbyn y gŵyn ac unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan y sawl sy'n cwyno (fel y nodir ym mharagraff A2.14).

**Penderfyniadau i Ystyried**

[60] Mae Adran 117 o Ddeddf 1996 yn mynnu bod y BBC yn cadw recordiad o bob rhaglen deledu am 90 diwrnod o'r dyddiad darlledu a phob rhaglen radio am 42 diwrnod o'r dyddiad darlledu at ddibenion adran 115 o'r Ddeddf honno. O dan Gytundeb y BBC, rhaid i'r BBC gadw recordiadau o raglenni am gyfnod a bennir gan Ofcom. Mae Ofcom wedi penderfynu y bydd yn rhaid i'r BBC gadw recordiadau o raglenni radio am o leiaf 42 diwrnod ar ôl darlledu; recordiadau o raglenni teledu am o leiaf 90 diwrnod ar ôl darlledu; a chopïau o raglenni sydd wedi bod ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC am o leiaf 42 diwrnod ar ôl iddyn nhw beidio â bod ar gael i'w gwylio. Os bydd cwyn, rhaid i'r BBC gadw'r recordiadau neu'r copïau perthnasol, ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig, am y cyfnodau hynny, gan ddechrau ar y dyddiad y byddai'n rhesymol i'r BBC ddisgwyl y byddai'r sawl sy'n cwyno wedi cael ei ymateb terfynol i'r gŵyn.

[61] O dan Gytundeb y BBC, rhaid i'r BBC gydymffurfio ag unrhyw gais i ddarparu recordiad o raglenni i Ofcom.

Fel yr eglurir uchod, mae cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd yn gwynion am driniaeth annheg neu anghyfiawn mewn rhaglenni neu am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglenni (neu yng nghyswllt cael y deunyddiau sydd ynddynt).

Mae modd i unigolyn neu gorff o bobl (p'un ai ydynt yn gorfforedig ai peidio) wneud y cwynion hyn. Serch hynny, fel rheol ni fydd Ofcom yn ystyried cwyn o'r fath oni bai ei bod yn cael ei gwneud gan "y sawl yr effeithir arno" neu gan rywun sydd wedi'i awdurdodi gan "y sawl yr effeithir arno" i wneud y gŵyn ar ei ran neu ei rhan: adran 111(1) o Ddeddf 1996.[62]

Mae'r "Sawl yr Effeithiwyd Arno" yn derm statudol a ddiffinnir gan adran 130 o Ddeddf 1996.

Mewn perthynas â chwyn Tegwch h.y. cwyn am driniaeth anghyfiawn neu annheg mewn rhaglen, mae'r "sawl yr effeithiwyd arno" yn golygu:

- cyfranogwr yn y rhaglen dan sylw a gafodd ei drin yn y ffordd honno (mae "cyfranogwr" yn golygu rhywun a oedd yn ymddangos, neu y cafodd ei lais ei glywed, yn y rhaglen); neu
- unigolyn, boed yn gyfranogwr ai peidio, a oedd â budd uniongyrchol ym mhwnc y driniaeth honno.

Mewn perthynas â chwyn Preifatrwydd, h.y. cwyn am darfu'n ddiangen ar breifatrwydd mewn rhaglen/rhaglenni, neu yng nghyswllt cael gafael ar ddeunyddiau wedi'u cynnwys mewn rhaglen/rhaglenni, mae'r "sawl yr effeithiwyd arno" yn golygu rhywun y tarfwyd ar ei breifatrwydd.

Mae Deddf 1996 wedyn yn gosod nifer o feini prawf statudol eraill y mae'n rhaid eu bodloni cyn i Ofcom allu ystyried neu symud ymlaen i ystyried cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd. Yn benodol, mae gan Ofcom ddyletswydd i beidio ag ystyried cwyn os yw'n ymddangos i Ofcom:

- bod tesun y gŵyn yn desun achos mewn llys barn yn y DU; neu
- bod testun y gŵyn yn fater y mae gan y sawl sy'n cwyno neu'r sawl yr effeithiwyd arno rwymedi ar ei gyfer drwy gyfrwng achos mewn llys barn yn y DU, ac yn yr amgylchiadau penodol nid yw'n briodol i Ofcom ystyried cwyn yn ei gylch; neu
- mae'r gŵyn yn wamal; neu
- am unrhyw reswm arall mae'n amhriodol i Ofcom ystyried neu fwrw ymlaen i ystyried y gŵyn.

---

[62] Mae hyn yn amodol ar eithriadau. Pan fydd "y sawl yr effeithiwyd arno" yn unigolyn sydd wedi marw, mae modd i'w gynrychiolydd personol cyflwyno cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd ar ei ran neu aelod o deulu'r sawl yr effeithiwyd arno, neu unigolyn neu gorff arall sydd â chysylltiad agos ag ef neu hi (yn gyflogwr, neu yn gorff yr oedd yn aelod ohono ar yr adeg y bu farw, neu mewn unrhyw ffordd arall). Yn yr un modd, pan fydd "y sawl yr effeithiwyd arno" yn unigolyn sydd am ryw reswm neu'i gilydd yn methu cwyno ei hun ac yn methu awdurdodi rhywun arall i wneud hynny ar ei ran, mae modd i aelod o deulu'r "sawl yr effeithiwyd arno" gwyno, neu unrhyw unigolyn neu gorff arall sydd â chysylltiad agos ag ef (yn gyflogwr, neu'n gorff y mae'n aelod ohono, neu mewn unrhyw ffordd arall): edrychwch ar adran 111(2)a(3). (Bydd hyn yn briodol os na all "y sawl yr effeithiwyd arno" roi ei awdurdod oherwydd, er enghraifft, ei fod dan 16 oed).

(Os daw unrhyw un o'r materion uchod yn amlwg i Ofcom wrth iddo ystyried cwyn, efallai y bydd yn rhoi'r gorau i fwrw ymlaen i ystyried y gŵyn).

A2.25 Bydd y sawl sy'n cwyno a'r BBC yn cael copi o Benderfyniad i Ystyried Ofcom yn datgan a fydd Ofcom (ac i ba raddau) yn bwrw ymlaen i ystyried y gŵyn[63].

A2.26 Ni fydd yr holl gwynion (na rhannau o gwynion) a geir yn dod dan gylch gwaith Tegwch a Phreifatrwydd Ofcom. Os bydd Ofcom yn credu bod y gŵyn yn codi materion eraill (h.y. nad ydynt yn ymwneud â Thegwch a Phreifatrwydd) sy'n dod dan gylch gwaith ehangach Ofcom, efallai y gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio'r materion hynny, yn y lle cyntaf, i'r BBC.[64]

## Sylwadau

A2.27 Os bydd Ofcom yn ystyried cwyn, yna, ar yr un pryd ag y bydd yn darparu'r Penderfyniad i Ystyried i'r BBC (dan baragraff A2.25 uchod), bydd Ofcom hefyd yn gofyn i'r BBC ddarparu datganiad i ymateb i'r gŵyn cyn pen 20 diwrnod gwaith. Wrth wneud hynny, bydd Ofcom yn nodi'r darpariaethau yn y Cod Darlledu sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i'w waith dilynol yn ystyried y gŵyn, ac yn gofyn am sylwadau gan y BBC ar y sail honno. Caiff Ofcom hefyd wneud cais i'r BBC ddarparu trawsgrifiad o'r rhaglen berthnasol, ynghyd ag unrhyw ddogfennau neu ddeunyddiau perthnasol eraill.[65]

A2.28 Ar ôl derbyn datganiad/sylwadau'r BBC, bydd Ofcom yn rhoi copi i'r sawl sy'n cwyno.

## Paratoi Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom

A2.29 Bydd Ofcom wedyn yn paratoi ei "Safbwynt Rhagarweiniol" ar sylwedd y gŵyn ar ôl ystyried datganiad/sylwadau'r BBC pan fydd rhai wedi cael eu darparu. Dim ond safbwynt dros dro yw'r safbwynt rhagarweiniol hwn a gallai newid yng ngoleuni sylwadau/deunyddiau dilynol a fydd yn cael eu darparu gan y sawl sy'n cwyno a'r BBC[66]: edrychwch ar baragraffau 2.31 a 2.32 isod.

A2.30 Bydd yr holl Safbwyntiau Rhagarweiniol drafft yn cael eu rhoi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom[67] i gael eu barn gynghorol. Bydd y penderfyniad ynghylch Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yn cael ei wneud gan uwch aelod o Fwrdd Gwaith Ofcom a fydd wedi cael awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd. Fel rheol, dyma

[63] Bydd manylion yr holl raglenni yr ymchwilir iddyn nhw (h.y. os ystyrir cwyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd), yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/
[64] Yn unol â dull gweithredu 'BBC yn Gyntaf', dylai cwynion ar wahân i gwynion am Degwch a/neu Breifatrwydd gael eu datrys fel rheol gan y BBC yn y lle cyntaf.
[65] O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, caiff Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth er mwyn i Ofcom allu cyflawni ei ddyletswyddau. Rydyn ni'n pwyso ac yn mesur a ydyn ni angen rhagor o ganllawiau ar ein pwerau cyffredinol i gasglu gwybodaeth a bydd hyn yn cynnwys ystyried a ydyn ni angen canllawiau o'r fath ar gyfer trydydd partïon.
[66] gan gynnwys unrhyw drydydd parti perthnasol (gweler y blwch testun "Sylwadau gan drydydd partïon" isod).
[67] Mae'r Bwrdd Cynnwys yn bwyllgor o Brif Fwrdd Ofcom a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad helaeth o ddarlledu. Edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/how-ofcom-is-run/content-board

fyddai'r sawl sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ymchwiliad. Bydd y Safbwynt Rhagarweiniol yn cynnwys:

- crynodeb o'r gŵyn sy'n cael ei hystyried (neu rannau penodol o'r gŵyn sydd wedi cael eu hystyried) fel y nodir yn y Penderfyniad i Ystyried perthnasol;
- crynodeb o ddarnau perthnasol y rhaglen(ni) y mae'r gŵyn yn berthnasol iddynt;
- darpariaethau penodol y Cod Darlledu y mae Ofcom yn credu sy'n berthnasol i'r gŵyn sy'n cael ei hystyried;
- crynodeb o ddatganiad y BBC o sylwadau mewn ymateb; ac
- asesiad rhagarweiniol Ofcom ynghylch a gafodd unrhyw rai o'r darpariaethau hynny eu torri a'r rhesymau dros yr asesiad hwnnw.

A2.31 Bydd Ofcom wedyn yn rhoi'r Safbwynt Rhagarweiniol i'r sawl sy'n cwyno ac yn gofyn am sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith. Ar ôl cael unrhyw sylwadau gan y sawl sy'n cwyno, bydd Ofcom yn rhoi'r Safbwynt Rhagarweiniol a'r sylwadau hynny i'r BBC, ac yn gofyn am ei sylwadau cyn pen 10 diwrnod gwaith. Mewn rhai amgylchiadau, gall Ofcom benderfynu ei bod yn briodol, yn deg ac yn angenrheidiol cynnal gwrandawiad cyn dod i benderfyniad[68] (gweler y blwch "Gwrandawiadau" isod). Pan fydd yn gwneud hynny, bydd Ofcom yn paratoi ei Safbwynt Rhagarweiniol ar ôl iddo gynnal y gwrandawiad.

A2.32 Ar ôl i Ofcom gael ac ystyried sylwadau'r BBC a'r sawl sy'n cwyno (neu unrhyw sylwadau gan drydydd partïon perthnasol (gweler y testun perthnasol isod) am ei Safbwynt Rhagarweiniol, bydd yn gwneud ei Ddyfarniad terfynol. Os cred Ofcom fod angen cael rhagor o wybodaeth gan y naill barti neu'r llall[69] i wneud yn siŵr ei fod yn gallu dyfarnu'n deg ac yn briodol ynghylch y gŵyn (er enghraifft, os oes anghydfod sylweddol am ffeithiau rhwng y sawl sy'n cwyno a'r BBC), gall Ofcom ofyn am ragor o wybodaeth o'r fath.

A2.33 Mae Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried cwynion Tegwch a Phreifatrwydd, a dyfarnu arnynt, o fewn 90 diwrnod gwaith i ystyried y gŵyn.

**Gwrandawiadau**

Bydd cwynion Tegwch a/neu Breifatrwydd sy'n cael eu gwneud i Ofcom yn cael eu hystyried naill ai mewn gwrandawiad, neu os bydd Ofcom yn meddwl bod hynny'n addas, heb wrandawiad. Fel rheol bydd Ofcom yn cynnal gwrandawiad llafar os yw'n ystyried bod angen un i sicrhau bod modd iddo ddyfarnu'n deg ac yn briodol ynghylch y gŵyn. Er enghraifft, os oes anghydfod sylweddol o ran ffeithiau rhwng y sawl sy'n cwyno a'r BBC, neu fod y sawl sy'n cwyno a/neu'r BBC yn gofyn am wrandawiad. Fel rheol, bydd Ofcom yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd o ddyddiad y gwrandawiad i'r partïon. Gellir cynnal gwrandawiadau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban fel sy'n briodol.

---

[68] Y sawl sy'n gwneud y penderfyniad terfynol fyddai'n cadeirio unrhyw wrandawiad llafar
[69] neu drydydd parti perthnasol. O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, caiff Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth er mwyn i Ofcom allu cyflawni ei ddyletswyddau (gweler troednodyn 65).

Caiff gwrandawiadau eu cynnal yn breifat a bydd pob un o'r canlynol yn cael cyfle i fod yn bresennol i roi sylwadau llafar:

(a) y sawl sy'n cwyno;

(b) y BBC;

(c) y gwneuthurwr rhaglenni sy'n gyfrifol am wneud y rhaglen y mae'r gŵyn yn ei chylch (os nad y BBC ydyw); ac

(d) unrhyw un arall mae Ofcom yn credu a allai helpu yn y gwrandawiad.

Caiff pob un o'r partïon ddod â rhywun arall i'r gwrandawiad (fel rheol hyd at dri unigolyn arall). Dylid rhoi eu henwau, eu cysylltiad â'r achos a disgrifiad o'r swyddogaeth maent yn bwriadu ei chyflawni yn y gwrandawiad i Ofcom, o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Rhaid i Ofcom hefyd gael gwybod os bydd unrhyw un sy'n dod i wrandawiad dan 16 oed.

Bydd y drefn yn y gwrandawiad yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at y partïon cyn unrhyw wrandawiad i nodi beth fydd y drefn.[70]

### Cyflwyno deunyddiau/sylwadau yn hwyr

A2.34 Dylai ond pan ofynnir iddynt wneud hynny ar y camau priodol yn y Gweithdrefnau hyn y dylai partïon gyflwyno sylwadau a deunyddiau/tystiolaeth berthnasol i Ofcom. Fel rheol ni fydd Ofcom yn derbyn unrhyw sylwadau neu ddeunyddiau a gyflwynir ar ôl iddo symud ymlaen i ddrafftio ei Ddyfarniad terfynol (gweler paragraff A2.35 isod).

A2.35 Ofcom fydd yn penderfynu a fydd deunyddiau o'r fath yn cael eu caniatáu. Os bydd deunyddiau nas gofynnwyd amdanynt yn cael eu caniatáu, byddant yn cael eu darparu i'r parti arall a fydd wedyn yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau arnynt.

**Sylwadau gan drydydd partïon**

Mae Ofcom yn cydnabod y gallai canlyniad ymchwiliad a phenderfyniad Ofcom ynghylch cwyn effeithio ar rai pobl/cyrff yn uniongyrchol, gan fod ganddynt efallai fuddiannau sy'n annibynnol ar y BBC (er enghraifft, cyflwynwyr, cynhyrchwyr a/neu gwneuthurwyr rhaglenni annibynnol). Ble bynnag y bo modd, dylai'r BBC geisio ystyried a chynnwys sylwadau pobl/cyrff o'r fath yn eu cyflwyniadau er mwyn ymateb i gŵyn a chadarnhau eu bod wedi gwneud hynny wrth Ofcom.

Fodd bynnag, gall pobl/cyrff o'r fath gyflwyno sylwadau ar eu rhan eu hunain yn uniongyrchol i Ofcom mewn perthynas â chwyn y bydd Ofcom yn bwrw ymlaen i ymchwilio iddi. Mewn achos o'r fath, dylai pobl geisio cyflwyno sylwadau i Ofcom cyn gynted ag sy'n bosibl mewn ymchwiliad i gŵyn, gan nodi a yw/i ba raddau y mae eu sylwadau yn wahanol i sylwadau'r BBC. Bydd Ofcom yn ystyried y sylwadau hynny fel sy'n briodol ac yn cynnwys y bobl/cyrff hynny yn ei broses penderfynu dan y Gweithdrefnau hyn.

[70] Ynghyd â manylion pwy fydd yn bresennol o Ofcom, gan gynnwys unrhyw Aelodau Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

Bydd manylion yr holl raglenni yr ymchwilir iddyn nhw (h.y. os oes cwyn ynghylch Tegwch a/neu Breifatrwydd wedi cael ei hystyried), yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/audience-complaints/

## Cyhoeddi Dyfarniad

A2.36 Ar ôl i Ofcom gasglu ac ystyried y dystiolaeth berthnasol a'r sylwadau (ysgrifenedig/llafar) a gyflwynwyd gan y partïon, bydd Ofcom yn cwblhau ei waith yn ystyried y gŵyn drwy baratoi Dyfarniad Terfynol a fydd yn nodi a fydd y gŵyn yn cael ei chadarnhau, ddim yn cael ei chadarnhau, neu'n cael ei chadarnhau'n rhannol. Bydd pob Dyfarniad drafft yn cael ei roi i banel o aelodau Bwrdd Cynnwys Ofcom (nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol) i gael eu barn gynghorol cyn gwneud Dyfarniad terfynol. Bydd y penderfyniad a'r Dyfarniad terfynol yn cael eu gwneud gan uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom gydag awdurdod dirprwyedig priodol gan y Bwrdd a fydd wedi goruchwylio'r gwaith o baratoi'r Dyfarniad drafft ac na fydd wedi bod yn ymwneud â'r ymchwiliad a/neu baratoi'r Penderfyniad i Ystyried a/neu'r Safbwynt Rhagarweiniol.

A2.37 Cyn i Ofcom gyhoeddi ei Ddyfarniad terfynol, bydd yn rhoi copi drafft o'r Dyfarniad terfynol dan embargo i'r BBC a'r sawl a oedd yn cwyno, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A2.38 Bydd y dyfarniadau'n cael eu cyhoeddi ym mwletin Ofcom, y *Broadcast and On Demand Bulletin,* ar ei wefan yn http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/

A2.39 Os caiff cwyn ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol, caiff Ofcom gyfarwyddo'r BBC i ddarlledu crynodeb o'i Ddyfarniad. Fel rheol, bydd Ofcom yn gwneud cyfarwyddyd o'r fath pan fydd adrannau Tegwch a/neu Breifatrwydd Cod Darlledu Ofcom wedi cael eu torri sydd wedi arwain at fuddiannau cyfreithlon rhywun sy'n cwyno yn cael eu niweidio'n ddifrifol ac sy'n galw am gyhoeddi sy'n fwy na'r hyn a gyhoeddir ym Mwletin Ofcom.[71] Bydd unrhyw benderfyniad i roi cyfarwyddyd yn adlewyrchu dyletswyddau Ofcom i fod yn gymesur, yn gyson ac wedi'i dargedu dim ond at yr achosion sy'n haeddu cael sylw ym marn Ofcom.

## Peidio â Datgelu

A2.40 Mae'n rhan hanfodol o integriti prosesau Ofcom a'i allu i ddyfarnu'n deg bod pob parti dan sylw yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod.

**Peidio â Datgelu**

Oni nodir yn wahanol, caiff partïon mewn cwyn (y rheini sy'n cwyno, y BBC, Ofcom ac unrhyw drydydd parti perthnasol) gyhoeddi'r ffaith bod cwyn wedi cael ei

[71] Ond efallai y bydd Ofcom hefyd yn rhoi cyfarwyddyd o'r fath mewn achosion eraill y mae'n credu bod cyhoeddi yn ychwanegol at gyhoeddi ym Mwletin Ofcom (the Broadcast and On Demand Bulletin) yn briodol.

gwneud neu fod Ofcom wrthi'n ymchwilio i achos. Mae modd iddynt hefyd ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn gyhoeddus.

Serch hynny, ni ddylai'r partïon ddatgelu unrhyw ohebiaeth, dogfennau na deunyddiau eraill sy'n ymwneud â'r gŵyn yn ystod yr ymchwiliad.[72] Cyn penderfyniad terfynol Ofcom, bydd pwy ydy rhywun sy'n cwyno ond yn cael ei ddatgelu gan y BBC neu gan drydydd parti i'r rheini sydd â buddiant uniongyrchol yn y mater sy'n destun y gŵyn.

Gall methu â dilyn y gofyniad hwn olygu bod Ofcom yn rhoi'r gorau i ystyried sylwadau'r parti. Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.[73]

### Cyfyngiadau amser

A2.41 Dylai'r rheini sy'n cwyno a'r BBC gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu ei bod yn briodol (er budd tegwch a/neu er mwyn ystyried cwyn yn iawn) diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser a nodir yn y Gweithdrefnau hyn mewn achos penodol. Os bydd unrhyw un sy'n cwyno neu'r BBC yn gofyn am estyniad i'r cyfnod, dylen nhw roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam eu bod yn credu bod hynny'n briodol. Bydd Ofcom wedyn yn penderfynu a yw estyniad yn briodol ac yn rhoi gwybod i'r parti/partïon eraill yn unol â hynny.

### Sancsiynau

A2.42 Yng ngoleuni ei ddyfarniad ynghylch cwyn Tegwch a/neu Breifatrwydd, gall Ofcom gredu bod cyfiawnhad dros ystyried sancsiwn yn erbyn y BBC. Os felly, bydd Ofcom yn egluro hynny yn ei Ddyfarniad a bydd y "Gweithdrefnau ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys yng nghyd-destun gwasanaethau'r BBC" wedyn yn berthnasol (edrychwch yn Atodiad 3 y ddogfen hon).

[72] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo fel rhan o gŵyn er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

[73] Caiff Ofcom (wrth ymchwilio i'w Ddyfarniad a'i gyhoeddi) ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

Atodiad 3

# Gweithdrefnau sy'n cael eu cynnig ar gyfer ystyried sancsiynau am dorri safonau cynnwys ar wasanaethau darlledu'r BBC a gwasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC

## Cyflwyniad

A3.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r Gweithdrefnau y bydd Ofcom fel rheol yn eu dilyn wrth ystyried penderfynu ynghylch sancsiwn yn erbyn y BBC mewn perthynas â thorri safonau cynnwys (gan gynnwys mewn perthynas â Thegwch a Phreifatrwydd) ar Wasanaethau Darlledu Cyhoeddus yn y DU ("gwasanaethau darlledu'r BBC") a Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alwad Cyhoeddus yn y DU ("gwasanaethau rhaglenni ar alwad")[74] a ddarperir gan y BBC.[75] Daw'r Gweithdrefnau hyn i rym ar 3 Ebrill 2017.

A3.2 Os yw Ofcom o'r farn y byddai'n decach ac yn fwy priodol dilyn gweithdrefn wahanol mewn unrhyw achos penodol, byddwn yn egluro wrth y BBC ein rhesymau dros wneud hynny. (Mae'r brys i fynd i'r afael â niwed parhaus posibl pan fydd deunydd yn dal ar gael ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC yn un enghraifft o reswm pam y gallai fod yn briodol i Ofcom beidio â dilyn y Gweithdrefnau hyn.)

## Fframwaith statudol

A3.3 Mae dyletswyddau Ofcom mewn perthynas â darlledu yn cynnwys sicrhau, yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n darparu digon o amddiffyniad:

- i aelodau'r cyhoedd rhag deunyddiau sy'n achosi tramgwydd neu niwed: adran 3(2)(e) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("Deddf 2003"); ac

- i aelodau'r cyhoedd a phob unigolyn arall rhag cael eu trin yn annheg mewn rhaglenni a fydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath a rhag tarfu ar breifatrwydd yn ddiangen sy'n deillio o weithgareddau a wneir at ddibenion gwasanaethau o'r fath: adran 3(2)(f) o Ddeddf 2003.

[74] Fel BBC iPlayer ac iPlayer Kids (rhaglenni clyweledol a sain).
[75] Mae gweithdrefnau yn ymwneud â sancsiynau sy'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan gwmnïau'r BBC ar gael ar wefan Ofcom. https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures Nid oes gan Ofcom gylch gwaith i ystyried cwynion sy'n ymwneud â BBC World Service ac nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i ddeunyddiau sy'n cael eu darlledu ar y World Service.

A3.4 Drwy rinwedd adran 3(4)(g) o Ddeddf 2003, rhaid i Ofcom ystyried yr angen i sicrhau bod y safonau hynny yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau sy'n gwarantu lefel briodol o ryddid mynegiant.

A3.5 Yn fwy penodol, mae gan Ofcom ddyletswydd dan adran 319 o Ddeddf 2003 i osod safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni sydd i'w cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio sy'n ymddangos i Ofcom fel y rhai gorau i sicrhau "amcanion safonau" penodol, sydd wedi cael eu nodi yn adran 319(2). Rhaid i Ofcom lunio codau sy'n cynnwys y safonau hyn. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae Ofcom yn defnyddio darpariaethau Cod Darlledu Ofcom ("y Cod Darlledu")[76].

A3.6 Yn yr un modd, mae gan Ofcom ddyletswydd benodol dan adran 107 o Ddeddf Darlledu 1996 ("Deddf 1996") i lunio cod sy'n rhoi cyfarwyddyd am yr egwyddorion a'r arferion sydd i'w dilyn gan ddarlledwyr yng nghyswllt osgoi triniaeth annheg neu anghyfiawn[77] mewn rhaglenni a tharfu ar breifatrwydd yn ddiangen mewn rhaglenni (neu mewn cysylltiad â chael deunyddiau sydd yn y rhaglenni). Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, bydd Ofcom yn defnyddio Adrannau Saith ("Tegwch") ac Wyth ("Preifatrwydd") y Cod Darlledu.

A3.7 Mae Ofcom yn rheoleiddio gwasanaethau'r BBC yn rhinwedd adran 198 o Ddeddf 2003 i'r graddau y mae darpariaeth i wneud hynny wedi cael ei gynnwys yn Siarter a Chytundeb y BBC,[78] Deddf 2003 a Rhan 5 o Ddeddf 1996. Mae'r Siarter a'r Cytundeb yn gosod dyletswyddau'r BBC i gydymffurfio â'r Cod Darlledu a phwerau Ofcom i ymchwilio a gorfodi'r BBC i gydymffurfio. O dan Siarter a Chytundeb y BBC, yn ogystal â gwasanaethau darlledu'r BBC, rhaid i wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC gydymffurfio â'r Cod Darlledu i'r graddau y bydd Ofcom yn pennu bod y safonau'n berthnasol i'r hyn a ddarperir gan wasanaethau rhaglenni ar alwad y BBC.[79]

A3.8 Yn unol â darpariaethau Siarter y BBC, os ydy Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio â gofyniad penodol, caiff Ofcom:

a) cyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau a fydd ym marn Ofcom yn:

   (i) gwneud iawn am y methiant i gydymffurfio;

   (ii) sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i ofynion yn iawn yn y dyfodol;

b) cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid iddo dalu cosb ariannol benodedig o fewn cyfnod penodol. £250,000 ydy'r gosb uchaf mae modd ei rhoi ar unrhyw adeg.[80]

---

[76] Mae ymgynghoriad cyfredol Ofcom ar y Cod Darlledu ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0027/95760/Broadcasting-Code-Review.pdf

[77] Caiff triniaeth anghyfiawn neu annheg ei diffinio gan adran 130 o Ddeddf 1996 fel triniaeth sy'n anghyfiawn neu'n annheg oherwydd y ffordd cafodd deunyddiau mewn rhaglen eu dewis neu eu trefnu.

[78] https://www.gov.uk/government/publications/bbc-charter-and-framework-agreement

[79] Mae gwasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC hefyd yn rhwym wrth ofynion statudol penodol o dan Ran 4A o Ddeddf 2003, gan gynnwys rheolau mewn perthynas â deunydd niweidiol a gosod cynnyrch.

[80] Mae'r uchafswm wedi cael ei bennu yn adran 198(5) o Ddeddf 2003.

## Ofcom yn arfer ei bwerau gorfodi

A3.9 Mae rhoi sancsiwn yn fater difrifol. Caiff Ofcom, drwy ddilyn trefn briodol, roi sancsiwn os yw'n credu bod y BBC (mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu a/neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC) wedi torri un o ofynion y Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol neu droeon[81].

A3.10 Mae'r sancsiynau y caiff Ofcom eu rhoi yn cynnwys penderfynu:

- cyhoeddi cyfarwyddyd i beidio ag ailddangos rhaglen;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad ynghylch canfyddiadau Ofcom (neu'r ddau);
- cyhoeddi cyfarwyddyd i gyfyngu ar fynediad at raglen ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC;
- cyhoeddi cyfarwyddyd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr cyn dewis rhaglen benodol ar wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC; a/neu[82]
- rhoi cosb ariannol.

A3.11 Yn unol â Siarter y BBC, caiff Ofcom gyfarwyddo'r BBC, neu dderbyn ymrwymiad gan y BBC, i gymryd camau eraill y mae'n credu sy'n briodol yn amgylchiadau'r achos.

### Cyfarwyddyd i beidio ag ailddangos rhaglen

A3.12 Os ydy Ofcom yn fodlon bod cynnwys rhaglen yn unrhyw un o'i wasanaethau darlledu a/neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC wedi golygu torri'r Cod Darlledu, caiff gyfarwyddo'r BBC i beidio â chynnwys y rhaglen honno yn y gwasanaeth(au) yn y dyfodol.

### Cyfarwyddyd i gynnwys cywiriad neu ddatganiad ynghylch canfyddiadau

A3.13 Os ydy Ofcom yn fodlon:

a) bod y BBC, mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu a/neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC wedi torri'r Cod Darlledu; ac

b) mai'r unig ffordd o wneud iawn priodol am hynny ydy drwy gynnwys cywiriad neu ddatganiad ynghylch canfyddiadau (neu'r ddau) yn y gwasanaeth(au) perthnasol,

caiff Ofcom gyfarwyddo'r BBC i gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau (neu'r ddau) yn y gwasanaeth(au).

A3.14 Mae cyfarwyddyd yn gallu golygu ei bod yn rhaid i'r cywiriad neu'r datganiad ynghylch canfyddiadau fod ar ffurf benodol, ac i'w gynnwys mewn rhaglenni ac ar adegau y bydd Ofcom yn penderfynu arnyn nhw.

---

[81] Byddai torri'r Cod droeon yn cynnwys, er enghraifft: ailadrodd torri'r un gofyniad ag sydd eisoes wedi'i gofnodi; ailadrodd yr un ymddygiad neu ymddygiad tebyg a oedd wedi mynd yn groes i ofyniad yn gynharach; neu dorri gofynion eraill droeon.
[82] Mewn rhai achosion, gall Ofcom roi mwy nag un sancsiwn.

A3.15 Pan fydd y BBC yn cynnwys cywiriad neu ddatganiad ynghylch canfyddiadau mewn gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd o'r fath, caiff gyhoeddi ei fod yn gwneud hynny yn unol â chyfarwyddyd.

### Cosb ariannol[83]

A3.16 Os ydy Ofcom yn fodlon bod y BBC, mewn perthynas ag unrhyw un o'i wasanaethau darlledu a/neu wasanaeth rhaglenni ar alwad y BBC, wedi torri'r Cod Darlledu, caiff roi cosb ariannol i'r BBC.

A3.17 Nid yw rhoi cosb ariannol yn golygu na cheir rhoi unrhyw sancsiwn arall yng nghyswllt yr un achos(ion) o dorri'r cod.

### Penderfyniadau o dan y Gweithdrefnau hyn

A3.18 Yn unol â Siarter y BBC, ni fydd Ofcom yn rhoi sancsiwn i'r BBC oni bai ei fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC gyflwyno sylwadau am y materion sy'n rhoi sail ym marn Ofcom i'r sancsiwn.

A3.19 Wrth ystyried achosion o sancsiynau o dan y Gweithdrefnau hyn, bydd penderfyniadau am sancsiynau yn cael eu gwneud gan ddau uwch aelod o Bwyllgor Gwaith Ofcom y mae Bwrdd Ofcom wedi dirprwyo awdurdod priodol iddynt (gydag un ohonynt yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y tor-amod), ynghyd ag Aelod Anweithredol o Fwrdd Cynnwys Ofcom.

A3.20 Mewn achos sy'n ymwneud â sancsiwn, ni fydd y rheini sy'n penderfynu wedi bod yn rhan o'r ymchwiliad i'r tor-amod, hyd at a gan gynnwys y cyfnod o baratoi'r Safbwynt Rhagarweiniol ynghylch yr achos.

A3.21 Pan fydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC yn unol â pharagraff A3.24 isod, bydd yn nodi'r rheini a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

## Gweithdrefnau

### Ystyried sancsiynau

A3.22 Bydd ystyried sancsiwn o dan y Gweithdrefnau hyn yn dilyn penderfyniad gan Ofcom bod y BBC wedi torri un o ofynion y Cod Darlledu. Fel rheol bydd achos yn cael ei ystyried ar gyfer rhoi sancsiwn pan fydd Ofcom yn credu bod y BBC wedi torri'r Cod Darlledu yn ddifrifol, yn fwriadol, droeon neu'n ddi-hid.

A3.23 Bydd Ofcom yn ceisio cwblhau'r gwaith o ystyried rhoi sancsiwn cyn pen 60 diwrnod gwaith o'r dyddiad y bydd Ofcom yn cofnodi bod y Cod Darlledu wedi cael ei dorri. Serch hynny, gall amgylchiadau achosion unigol amrywio'n sylweddol ac efallai bydd hi'n cymryd mwy o amser mewn ambell achos.

A3.24 Os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ysgrifennu at y BBC gyda'r wybodaeth ganlynol fel sy'n briodol:

- manylion ynghylch y torri amodau;

[83] Mae canllawiau Cosbau Ofcom, sy'n nodi sut mae'n cynnig penderfynu ar swm y cosbau mae'n eu rhoi, ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/49685/penalty_guidelines_2015.pdf

- sylwadau ar unrhyw fater a godwyd gan y BBC sy'n bwysig i'r achos;
- manylion unrhyw achosion perthnasol y mae Ofcom eisoes wedi dyfarnu yn eu cylch;
- manylion hanes cydymffurfio diweddar y BBC;
- manylion safbwynt rhagarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol;
- manylion safbwynt rhagarweiniol Ofcom ynghylch y math o sancsiwn a lefel unrhyw sancsiwn yr ystyrir ei fod yn briodol ac yn gymesur;
- crynodeb o'r deunyddiau y mae wedi dibynnu arnynt i gyrraedd ei safbwynt rhagarweiniol;
- copi o'r dogfennau[84] perthnasol mae Ofcom wedi'u hystyried.

A3.25 Ar y cam hwn, os mai Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom yw y dylai'r sancsiwn priodol gynnwys cosb ariannol bydd, fel sy'n briodol, yn ystyried y gosb yn unol â'r Canllawiau Cosbau a gyhoeddwyd gan Ofcom yn https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/49685/penalty_guidelines_2015.pdf.

A3.26 Bydd Ofcom yn gofyn i'r BBC gyflwyno sylwadau ar ei Safbwynt Rhagarweiniol y gallai sancsiwn fod yn briodol ac ar lefel a math unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Gan ddibynnu ar y math o sancsiwn a'i lefel, gall hyn fod drwy sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar, fel y cred Ofcom sy'n briodol (gweler paragraffau A3.27 i A3.29 isod).

## Sylwadau ysgrifenedig

A3.27 Bydd y BBC yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom y gallai sancsiwn fod yn briodol ac ar lefel a math unrhyw sancsiwn sy'n cael ei ystyried. Fel rheol 15 diwrnod fydd y cyfnod ar gyfer sylwadau ysgrifenedig, oni nodir fel arall. Mewn rhai amgylchiadau, gall Ofcom, os yw'n credu ei fod yn briodol, ofyn am ragor o wybodaeth neu sylwadau gan y BBC[85].

## Sylwadau llafar

A3.28 Ar ben hynny, bydd Ofcom yn rhoi'r cyfle i'r BBC ddod i wrandawiad llafar i gyflwyno sylwadau llafar ar y materion y cyfeirir atynt yn Safbwynt Rhagarweiniol Ofcom. Fel rheol, bydd Ofcom yn rhoi o leiaf 15 diwrnod gwaith o rybudd i'r BBC o'r dyddiad ar gyfer gwneud y sylwadau hynny. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a gellir ei gynnal yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban fel sy'n briodol. Bydd y gwrandawiad yn cael ei drawsgrifio a bydd y trawsgrifiad yn cael ei roi i'r darlledwr. Caiff y BBC ddod â chynghorwyr cyfreithiol i'r gwrandawiad llafar er mwyn ei helpu i

[84] Caiff Ofcom ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.

[85] O dan Erthygl 47 o Siarter y BBC, caiff Ofcom fynnu bod y BBC ac unrhyw un arall yn darparu gwybodaeth er mwyn i Ofcom allu cyflawni ei ddyletswyddau. Rydyn ni'n pwyso ac yn mesur a ydyn ni angen rhagor o ganllawiau ar ein pwerau cyffredinol i gasglu gwybodaeth a bydd hyn yn cynnwys ystyried a ydyn ni angen canllawiau o'r fath ar gyfer trydydd partïon.

gyflwyno ei sylwadau llafar, er mae Ofcom yn cael gofyn i'r BBC gyfyngu ar nifer y bobl a ddaw i'r gwrandawiad llafar ar ei ran i nifer rhesymol.

A3.29 Bydd y weithdrefn ar gyfer cyflwyno sylwadau llafar yn ôl disgresiwn Ofcom. Bydd Ofcom yn ysgrifennu at y BBC cyn y dyddiad ar gyfer gwrnado'r sylwadau, i nodi beth fydd y weithdrefn.

### Penderfynu

A3.30 Ar ôl ystyried sylwadau ysgrifenedig a/neu lafar gan y BBC, gall Ofcom benderfynu nad yw sancsiwn yn briodol mewn achos penodol. Bydd y BBC wedyn yn cael hysbysiad ysgrifenedig i'r perwyl hwn a bydd yr hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ym Mwletin Ofcom (Broadcast and On Demand Bulletin).

### Penderfyniad ynghylch sancsiynau

A3.31 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a sylwadau gan y BBC, os bydd Ofcom yn credu bod sancsiwn yn briodol, bydd yn ystyried ac yn penderfynu pa un o'r sancsiynau sydd ar gael sy'n briodol. Os bydd Ofcom yn penderfynu y dylai'r sancsiwn gynnwys cosb ariannol bydd, fel sy'n briodol, yn ystyried Canllawiau Cosbau Ofcom a gyhoeddwyd yn https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/49685/penalty_guidelines_2015.pdf.

### Cyhoeddi Penderfyniad Sancsiwn

A3.32 Bydd Penderfyniad Sancsiwn, gyda datganiad am y rhesymau, yn cael ei anfon at y BBC, er gwybodaeth yn unig, un diwrnod gwaith cyn ei gyhoeddi.

A3.33 Bydd Ofcom wedyn yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ei wefan. Fel rheol bydd crynodeb o'r Penderfyniad ynghylch Sancsiwn yn cael ei gyhoeddi ym mwletin Ofcom (Broadcast and On Demand Bulletin) yn: http://stakeholders.ofcom.org.uk/enforcement/broadcast-bulletins/.

### Peidio â Datgelu

A3.34 Mae'n hanfodol i integriti prosesau Ofcom a'i allu i reoleiddio'n deg bod pob parti yn glynu wrth y rheolau a'r gweithdrefnau sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Ofcom, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â pheidio â datgelu isod[86].

[86] Mae'n rhaid i Ofcom gyflawni dyletswyddau statudol amrywiol sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth (er enghraifft, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Efallai y bydd yn rhaid i Ofcom ddatgelu gwybodaeth a roddir iddo er mwyn cyflawni dyletswyddau o'r fath.

**Peidio â Datgelu**

Mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC gadw'r holl wybodaeth, gohebiaeth a dogfennau sy'n ymwneud ag achosion sancsiynau yn gwbl gyfrinachol, oni bai eu bod eisoes ar gael i'r cyhoedd. Yn benodol, mae Ofcom yn disgwyl i'r BBC gadw'n gwbl gyfrinachol unrhyw wybodaeth a roddir iddo gan Ofcom fel rhan o'r broses sancsiynau, gan gynnwys unrhyw arwydd/penderfyniad dros dro ynghylch lefel a math unrhyw sancsiwn y gellir ei roi.[87]

Nid yw hyn yn cyfyngu ar yr hyn y gall Ofcom ei gyhoeddi yn ei benderfyniad ar ddiwedd yr ymchwiliad.

## Cyfyngiadau amser

A3.35 Dylai'r BBC gofio'r cyfyngiadau amser a bennir yn y Gweithdrefnau hyn. Serch hynny, efallai fod Ofcom yn credu (er budd tegwch a/neu er mwyn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â sancsiynau) ei bod yn briodol diwygio neu addasu'r cyfyngiadau amser mewn achos penodol. Os oes eisiau rhagor o amser ar y BBC, dylai roi esboniad ysgrifenedig i Ofcom ynghylch pam ei fod yn credu y dylid ymestyn y terfyn amser perthnasol.

[87] Caiff Ofcom ddal deunyddiau yn ôl os yw'n credu eu bod yn gyfrinachol, yn sensitif i'r farchnad neu â braint gyfreithiol, neu eu bod dan unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill i'w diogelu rhag eu datgelu. Mewn achosion o'r fath, bydd y BBC yn cael gwybod bod deunyddiau perthnasol wedi cael eu dal yn ôl, ac yn cael y rhesymau dros hynny.